# Y RHWYDWAITH MAETHU

# GWERTHUSO RHAGLEN ARLOESWYR

**Adroddiad Terfynol – 24.6.24**

## Ionawr i Fawrth 2024

# CYNNWYS


| | Rhif Tudalen |
|---|---|
| 1. Crynodeb Gweithredol | 3 |
| 2. Cefndir a Chyd-destun | 5 |
| 3. Methodoleg ac ymatebion | 7 |
| 4. Gwerthusiadau cysylltiedig | 9 |
| 5. Ymatebion – Holiadur Arloeswyr | 12 |
| 6. Canfyddiadau Drwodd a Thro | 14 |
| 7. Argymhellion | 28 |
| Atodiad 1 – E-bost cychwynnol Y Rhwydwaith Maethu | 30 |
| Atodiad 2 – E-bost cychwynnol H2t | 32 |
| Atodiad 3 – E-bost dilynol H2t | 34 |
| Atodiad 4 – Disgrifiad o Rôl Arloeswr | 35 |
| Atodiad 5 – Canfyddiadau o werthusiad CASCADE | 37 |
| Atodiad 6 - Ymatebion i Adolygiad Blynyddol Maethu Cymru | 38 |
| Atodiad 7 – Holiadur ar-lein Arloeswyr | 43 |
| Atodiad 8 – Proffiliau o Arloeswyr | 55 |

# 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

## Casgliadau cyffredinol

1.1 Y canfyddiad trosfwaol o'r gwerthusiad hwn yw bod yna, lle mae'r Rhaglen Arloeswyr wedi'i gwreiddio'n llwyddiannus, well diwylliant o gydraddoldeb a chyd-barch rhwng holl aelodau'r tîm estynedig hwn. Mae a wnelo hyn â phawb sy'n cymryd rhan fel rhan o wir 'dîm o amgylch y plentyn'. Arweiniodd hyn wedyn at ffyrdd cydgynhyrchiol o weithio sy'n gwerthfawrogi sgiliau, gwybodaeth a phrofiad pawb.

1.2 Mae hi'n dal yn gynnar yn hanes y Rhaglen Arloeswyr (y Rhaglen), gydag Awdurdodau Lleol mewn amrywiol gyfnodau o ddatblygiad. Mae hyn yn amrywio o'r rheiny sydd wedi gwreiddio'r Rhaglen yn eu ffyrdd arferol o weithio, y rheiny yng nghyfnodau cynnar datblygiad, ac ychydig sy'n teimlo eu bod eisoes yn ymgysylltu â'u gofalwyr maeth mewn ffyrdd cyffelyb ac nad oes arnynt angen y buddion y mae'r Rhaglen yn eu cynnig.

1.3 Lle nad yw Awdurdodau wedi ymgysylltu, mae yna weithiau fecanweithiau ymgynghori ar waith, ynghyd ag ymglymiad gofalwyr maeth wrth weithgareddau megis digwyddiadau recriwtio, ayyb. Fodd bynnag, ein barn ni yw nad yw hyn yn aml yn gyfystyr â chydgynhyrchu. Un o'r prif wahaniaethau rhwng y ddwy ymagwedd hyn yw bod a wnelo ymgynghori gan mwyaf â datblygu penderfyniadau a/neu strategaethau, ac wedyn ymgynghori â phobl. Mae cydgynhyrchu'n golygu y caiff pawb ei werthfawrogi a'i drin fel partneriaid cyfartal o'r dechrau un.

1.4 Nid yw dim o hyn yn anwybyddu'r ffaith y bydd gan wahanol bobl o fewn y tîm o amgylch y plentyn wahanol gyfrifoldebau, yn aml wedi'u diffinio gan statud. Gall hyn wedyn arwain at derfynau o ran yr hyn y mae gwahanol bobl yn gallu'i wneud o fewn y tîm estynedig hwn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal ffyrdd o weithio sy'n gwerthfawrogi cyfraniadau unigryw pawb yn gyfartal.

1.5 Yr ail ganfyddiad allweddol yw bod y strwythur a'r cymorth a ddarperir gan Y Rhwydwaith Maethu wedi bod o werth pendant lle mae Awdurdodau Lleol wedi llwyr dderbyn y Rhaglen. Er y gellir efelychu'r ffyrdd hyn o weithio heb gyfraniad y Rhwydwaith, mae'r buddion a ddaw gyda'r Rhaglen hon o ran dysgu a phrosesau ar y cyd, dyrchafiad, a statws yn darparu gwerth ychwanegol dangosadwy heb gost ychwanegol uniongyrchol i bob Awdurdod.

1.6 Cynhwysir manylion y canfyddiadau yn yr adroddiad llawn, a seiliwyd y rhain ar dueddiadau a phatrymau o fewn yr ymatebion o'r holiadur, grwpiau ffocws a chyfarfodydd un i un. Rydym yn hyderus, yn seiliedig ar adborth rydym wedi'i dderbyn, eu bod yn darparu dealltwriaeth gyson a chyffredin o brofiadau pobl sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen hyd yn hyn. Mae rhai o'r themâu allweddol ychwanegol a ymddangosodd fel a ganlyn:

## Themâu allweddol

1.7 Er mwyn uchafu effaith y Rhaglen, mae ymrwymiad ac amser yn angenrheidiol gan dimau'r Awdurdod Lleol. Gall y gwaith paratoadol hwn o roi adnoddau o flaen llaw

wedyn greu ystod o fuddion cyfnod hwy (ac yn ddichonol yn gynaliadwy) i ofalwyr maeth a'r timau sy'n eu cynorthwyo.

1.8 Mae rhai Arloeswyr sy'n gweithio mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol lle mae'r rôl yng nghyfnod cynnar ei datblygiad yn dal yn ddryslyd ynglŷn â'u rôl a'u terfynau. Mewn rhai achosion, dywed pobl fod y canfyddiad o'r rôl wedi darbwyllo gofalwyr maeth eraill i beidio â chymryd rhan. Mae barnau am hyn yn amrywio o bobl yn dymuno disgrifiad mwy strwythuredig o'r rôl i eraill a wêl yr angen am hyblygrwydd i addasu i sgiliau a diddordebau unigolion.

1.9 Mae dulliau cyfathrebu ac effeithiolrwydd y rhain yn amrywio ledled Awdurdodau Lleol. Yn ychwanegol at e-byst, defnyddir datrysiadau megis grwpiau WhatsApp a Facebook. Fodd bynnag, nid oes yna gysondeb o ran sut y caiff y rhain eu gweithredu. Mewn rhai achosion, yr Awdurdod Lleol a sefydlodd y mecanweithiau hyn ac maent yn cymryd rhan ynddynt. Mewn enghreifftiau eraill, mae gofalwyr maeth ac/neu Arloeswyr wedi sefydlu grwpiau eu hunain. Mae'r ymagwedd anghyson hon tuag at gyfathrebu yn ymestyn y tu hwnt i'r Arloeswyr eu hunain ac i'r gymuned gofalwyr maeth ehangach. Mewn rhai achosion, mae'r systemau hyn yn gweithio'n dda; mewn eraill, mae'n parhau i fod heb ei ddatblygu'n ddigonol, gyda mwy o waith ei angen i sicrhau dulliau cyfathrebu mwy effeithiol.

1.10 Mae pawb yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a'r cyfleoedd rhwydweithio y mae'r Rhaglen Arloeswyr yn eu cynnig. Credai'r mwyafrif llethol o bobl bod hyn yn fuddiol ac y byddent yn hoffi mwy o hyn. Roedd pawb yn gwerthfawrogi'r rhwydweithio, o fewn pob un Awdurdod Lleol, yn rhanbarthol, a ledled yr holl Arloeswyr yng Nghymru. Gwelwyd fod y rhwydweithio hyn yn darparu mwy o gyfleoedd i ddysgu oddi wrth eraill, yn neilltuol yn ymwneud â gweithgareddau y bu Arloeswyr yn cymryd rhan ynddynt, cyfathrebu a thâl.

1.11 Mae dulliau o ad-dalu i Arloeswyr am yr amser a'r cyfrifoldebau ychwanegol yn amrywio ledled ardaloedd Awdurdodau Lleol. Yn gyffredinol, mae pobl naill ai'n derbyn credydau amser, y gallant eu cyfnewid am wasanaethau a digwyddiadau lleol, neu maent yn derbyn taliad ariannol. Roedd adborth am y credydau amser bron i gyd yn negyddol, a chredai pawb y dylai fod yna ffordd safonol o dalu i Arloeswyr am eu hamser. Mae tystiolaeth o'r ardaloedd hynny lle y gwneir taliadau yn dynodi bod costau drwodd a thro o weithredu hyn yn isel, a bod y buddion i'r gwasanaeth yn gorbwyso'r gost yn rhwydd.

1.12 Yn seiliedig ar adborth, nid oedd yr un o'r Awdurdodau Lleol wedi datblygu unrhyw ffordd wedi'i safoni o fesur effaith y Rhaglen. Mewn rhai achosion, roedd Arloeswyr wedi paratoi adroddiadau rheolaidd am eu gwaith, ond nid oedd yna ffordd safonedig amlwg o wneud hyn, na ffyrdd drwy'r hyn y gallai'r rhain hysbysu barn am effeithiau a deilliannau.

1.13 Mae yna ystod o argymhellion yn y prif adroddiad sydd wedi'u canoli ar Y Rhwydwaith Maethu yn parhau i gynorthwyo pob Awdurdod Lleol i ddatblygu'r Rhaglen. Byddai hyn mewn ffordd sy'n cymell ac yn cynorthwyo gofalwyr maeth yn y rôl uwch

hon, gan sicrhau eu bod yn derbyn y negeseuon iawn am ddisgwyliadau, yr ystod o gyfleoedd sy'n agored iddynt, cymorth, a chyfathrebu.

1.14 Mae yna hefyd negeseuon i Awdurdodau Lleol o ran y gwerth ychwanegol y gall y math hon o raglen ei roi o ran grymuso gofalwyr maeth. Mae gan hyn y potensial nid yn unig i ddod â budd i ofalwyr maeth, a'r bobl ifanc y maent yn eu cynorthwyo, ond hefyd i ddarparu mwy adnoddau i'r timau gwaith cymdeithasol.

1.15 Yn olaf, mae hi hefyd yn eglur bod llawer o wasanaethau o dan amrywiol raddfeydd o bwysau oherwydd problemau canfod adnoddau, ac arweiniodd hyn yn aml at swyddi gweigion mewn timau a/neu fwy o drosiant. Mewn rhai achosion, bu hyn yn ffactor yn y ffaith na dderbyniodd y Rhaglen y lefel o ffocws y byddai timau maethu wedi'i hoffi.

## 2. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

2.1 Gwnaed y gwerthusiad annibynnol hwn gan Roger Rowett a Donna Thomas o Here2there.me Cyf., ar ran Y Rhwydwaith Maethu. Cytunwyd ar fethodoleg y gwerthusiad, ac ar ffocws y gwaith, trwy ddogfen Cylch Gorchwyl.

2.2 Mae'r Rhaglen Arloeswyr yn rhan o'r fenter Maethu Lles, a disgrifir hyn gan Y Rhwydwaith Maethu fel:

> **Mae Maethu Lles yn rhaglen arloesol, a ariannir gan Lywodraeth Cymru ac a ddarperir gan Y Rhwydwaith Maethu. Er mwyn gwella deilliannau i blant a phobl ifanc, mae'r rhaglen yn cydnabod bod gweithio amlasiantaethol trwy bartneriaeth fframwaith ledled gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg yn hanfodol. Cynlluniwyd Maethu Lles yn benodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.**

2.3 Mae'r Rhwydwaith Maethu yn amlinellu buddion y rhaglen hon, yn cynnwys:

- Mae'n hyrwyddo cydraddoldeb statws i bawb sy'n gysylltiedig â'r 'Tîm o amgylch y plentyn';
- Mae'n annog gweithwyr proffesiynol i gydweithio, gan ganolbwyntio ar wella deilliannau lles i blant a phobl ifanc;
- Mae'n creu iaith gyffredin ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gan ddod â phobl ynghyd a rhannu arferion gorau ledled terfynau gwasanaethau gyda'r nod o wreiddio dulliau cyffredin o weithredu.

2.4 Y ddwy elfen allweddol yn y fenter Maethu Lles yw'r Dosbarthiadau Meistr a'r Rhaglen Arloeswyr.

2.5 Mae'r Dosbarthiadau Meistr yn cynnig 5 gweithdy hyfforddi craidd, a ddarperir ar-lein i garfanau o bob rôl o fewn y Tîm o Amgylch y Plentyn. Amcan pob un dosbarth meistr yw galluogi gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol eraill i ennill y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i helpu i ysbrydoli plant a phobl ifanc i gyflawni'u potensial trwy ymagwedd un tîm.

2.6 Mae'r Rhaglen Arloeswyr yn ymwneud â'r Rhwydwaith Maethu yn gweithio mewn partneriaeth â thimau lleol ym mhob Awdurdod Lleol, i recriwtio gofalwyr maeth fel 'Arloeswyr'.  Gofalwyr maeth profiadol fydd yr Arloeswyr hyn, sydd, yn ychwanegol at y sgiliau a'r profiad a ddônt gyda nhw i'r rôl, yn derbyn hyfforddiant a chymorth i'w helpu i raeadru dysgu o fewn eu gwasanaeth.

# 3. METHODOLEG AC YMATEBION

CYFATHREBU

3.1 Anfonwyd y cyfathrebiadau a ganlyn at yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru:

- Anfonwyd e-byst cychwynnol gan Maethu Cymru at gysylltiadau allweddol ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru - gweler Atodiad 1.
- Dilynwyd hyn gan e-byst oddi wrth Here2there (H2t), gweler Atodiad 2. Roedd yr e-byst oddi wrth H2t (gweler Atodiad 2) yn gwahodd pobl i fod yn rhan o un o chwe grŵp ffocws ar-lein, a/neu i gwblhau holiadur.
- Roedd yna Awdurdodau Lleol nad oedd wedi ymateb i'r e-bost safonedig cychwynnol, ac wedyn anfonwyd e-byst unigolyddol atynt i'w hannog i gymryd rhan yn y gwerthusiad – gweler sampl yn Atodiad 3.

Yn ychwanegol:

- Cysylltwyd eto â Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol a dau gysylltiad allweddol arall ar gyfer y rhaglen i drefnu grŵp ffocws ychwanegol. Yn gyfan gwbl, mynychodd 4 o'r 6 Rheolwr Datblygu Rhanbarthol (RDM) grŵp ffocws. Mae un Rheolwr Datblygu Rhanbarthol ar absenoldeb salwch ar hyn o bryd.
- Cysylltwyd â thri Awdurdod Lleol lle y teimlwyd fod yna ddysgu penodol i drefnu grŵp ffocws cyffredin.
- Trwy rwydweithiau anffurfiol, cynhaliwyd cyfarfodydd i gynrychioli barnau dau ofalwr maeth mewn Awdurdod Lleol nad oeddynt yn cymryd rhan yn y Rhaglen Arloeswyr.
- Cyfwelwyd â Phennaeth Maethu Cymru am y Rhaglen.

GRWPIAU FFOCWS

3.2 Trefnwyd chwe grŵp ffocws ar-lein dwy awr o hyd ar gyfer Arloeswyr a chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol, fel ei gilydd. Mynychwyd pob un gweithdy gan fwy nag un Awdurdod Lleol, yn seiliedig ar ddewisiadau pobl o ddiwrnodau. Roedd pedwar o'r rhain yn ystod y dydd, un gyda'r nos, ac un ar fore Sadwrn. Roedd cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol yn cynnwys:

- Rheolwyr Timau Maethu
- Prif Weithwyr Cymdeithasol
- Tîm Maethu Cymru
- Swyddog Recriwtio a Datblygu
- Rheolwr Dros Dro
- Rheolwr Datblygu Rhanbarthol

3.3 Mynychodd cyfanswm o 22 o bobl ledled yr holl weithdai hyn. Roedd y niferoedd ym mhob un gweithdy'n amrywio o ddau i ddeg.

3.4 Yn ychwanegol, cynhaliwyd tri chyfarfod ag Awdurdodau Lleol sengl (Gwynedd, Sir y Fflint, a Rhondda Cynon Taf) er mwyn treulio amser wedi'i ganolbwyntio'n well yn adolygu'u profiadau o'r Rhaglen.

# 4. GWERTHUSIADAU CYSYLLTIEDIG

4.1 Roedd y Rhaglen Maethu Lles drwodd a thro yn destun gwerthusiad gan CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2022. Roedd hyn yn canolbwyntio ar y Dosbarthiadau Meistr, ac roedd yn cynnwys cyfweld â chyfranogwyr o'r gweithdai, sylwi ar weithdai, gwneud arolwg o gyfranogwyr, cyfweld â rheolwyr mewn Awdurdodau Lleol, cyfweld â hwyluswyr gweithdai, a chynnal grwpiau ffocws.

4.2 O ran negeseuon gan y gwasanaethau maethu ehangach yng Nghymru, cynhaliodd Maethu Cymru arolwg ar gyfer 2022/23. Gweithiodd Maethu Cymru gyda Chanolfan Ymchwil Caerdydd i ddatblygu holiadur i ddeall profiadau ac agweddau'r gofalwyr maeth y mae'n eu cynorthwyo. Mae'r canfyddiadau o'r arolwg hwn yn darparu 'hinfesurydd' defnyddiol o anghenion cymorth gofalwyr maeth yn fwy cyffredinol, ac mae hyn yn rôl ganolog i lawer o'r Arloeswyr.

## CASCADE

4.3 Caiff y canfyddiadau o werthusiad CASCADE eu cynnwys yn Atodiad 5 yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn bellgyrhaeddol ac yn ymestyn y tu hwnt i ddim ond y Rhaglen Arloeswyr. Rhestrir y meysydd a nodir sydd â pherthnasedd neilltuol i'r Rhaglen Arloeswyr, isod, ynghyd â chyfeiriad at y rhif o'r rhestr lawn yn Atodiad 5.

Mae'r Rhaglen Arloeswyr yn estyniad naturiol o'r Dosbarthiadau Meistr (24)

4.4 Dywed yr adroddiad bod y Rhaglen Arloeswyr mewn cyfnod cynnar o'i datblygiad ond gydag arwyddion gwych o addewid yn seiliedig ar eu hadborth. Dengys hyn gymeradwyaeth gynnar i'r cysyniad gan y bobl hynny o bob cwr o Gymru yr ymgynghorwyd â nhw.

Gofalwyr maeth yn rhan o'r Tîm o Amgylch y Plentyn (12, 19)

4.5 Mae hyn yn datgan bod '*y prif negeseuon o'r pwysigrwydd o ddod â'r gofalwr maeth i mewn i'r tîm o amgylch y plentyn a llunio penderfyniadau cysylltiedig wedi'u derbyn ac y gwrandawyd arnynt. Rhoes cynrychiolwyr wybod bod addysg a gofalwyr maeth fel ei gilydd yn awr yn cael eu cynnwys yn arferol mewn cyfarfodydd o amgylch y plentyn*'. Mae hyn yn bendant iawn yn adlewyrchu'r prif ganfyddiad o'r gwerthusiad hwn o ran grymuso gofalwyr maeth trwy'r Rhaglen Arloeswyr, ac wedyn yn gweithio gyda nhw mewn ffordd gydgynhyrchiol.

Ennyn Cyfranogiad Gweithwyr Proffesiynol (20, 21)

4.6 Mae'r ddau bwynt hyn yn pwysleisio'r pwysigrwydd bod gweithwyr proffesiynol (hynny yw, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol perthynol o wasanaethau eraill) yn cefnogi unrhyw raglen sy'n ceisio gwerthfawrogi a grymuso gofalwyr maeth, ac yn arwain trwy esiampl yn y ffordd hon o weithio. Heb y gefnogaeth hon a'r ymgysylltiad hwn, ni all y Rhaglen Arloeswyr (a'i moeseg waelodol) ffynnu.

## Adolygiad Blynyddol Maethu Cymru

4.7 Cynhwyswyd canfyddiadau sy'n berthnasol i'r gwerthusiad hwn yn Atodiad 6 yr adroddiad hwn. Gan fod yn seiliedig ar adborth gan 455 o ofalwyr maeth (yn ystod 2022/23) o bob cwr o Gymru, mae'r arolwg yn dynodi'r canlynol:

Cefnogaeth i Ofalwyr Maeth gan y Gwasanaeth Maethu.

4.8 Teimla ychydig dros hanner (53.2%) gofalwyr maeth eu bod yn cael eu cefnogi'n llwyr gan y gwasanaeth maethu, teimla'r gweddill eu bod yn cael rhywfaint o gefnogaeth (31.5%), neu nad ydynt yn cael eu cefnogi o gwbl (12.2%). Roedd rhesymau a roddwyd gan y rheiny nad oeddynt yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi yn cynnwys:

- *'Trwy wrando ar Ofalwyr a'u parchu. Eu trin fel gweithwyr proffesiynol.'*
- *'Gwrando ar yr hyn y mae gofalwyr yn ei ddweud gan mai nhw sy'n byw gyda'r plant 24 awr y dydd.'*

4.9 Er bod y barnau hyn yn ddetholiadol, ac nad oes yna bwysiad o ran nifer y bobl a ddywedodd hyn, maent yn cyd-fynd â'r negeseuon o'r gwerthusiad hwn o ran gwerthfawrogi gofalwyr maeth fel rhan o'r tîm o amgylch y plentyn.

Cefnogaeth i ofalwyr maeth gan ofalwyr maeth eraill.

4.10 Graddiwyd hyn ar raddfa 0 (dim cefnogaeth) i 10 (cefnogaeth lawn). Y sgôr cyfartalog oedd 6.7, gydag amrywiannau ledled rhanbarthau. Oherwydd nad yw'r graddfeydd yr un fath, nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth hollol gywir â'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan Y Gwasanaeth Maethu. Fodd bynnag, mae'n eglur bod cefnogaeth gan gymheiriaid yn cael ei gwerthfawrogi, a bod gan hyn ran bwysig wrth 'gynnal' gofalwyr maeth yn eu rôl.

4.11 Mae yna hefyd ystadegau ar gyfer cymorth y tu allan i oriau arferol swyddfa, ond nid yw'n eglur pa rôl sydd gan gefnogaeth gan gymheiriaid yn hyn. Fodd bynnag, mae adborth o'r gwerthusiad hwn yn dynodi y caiff cefnogaeth gan ofalwyr maeth eraill ei gwerthfawrogi, ac yn aml y mae'n haws ei gael.

4.12 Mewn perthynas â blaenoriaethau'r Awdurdod Lleol dros y 12 mis i ddod, mentora a chefnogaeth gan gymheiriaid oedd y maes a restrwyd yn ail uchaf, ar ôl ffioedd a lwfansau. Mae hyn eto yn neges gref iawn i gefnogi'r broses cefnogaeth gan gymheiriaid, sy'n ganolog i rôl yr Arloeswyr. Roedd sylwadau am hyn yn cynnwys:

> *"Gwella'r gwasanaeth a'r gefnogaeth rydych mewn gwirionedd yn eu darparu i ofalwyr maeth. Efallai petai hyn yn digwydd, ni fyddai'n rhaid ichi ganolbwyntio mor ddwys ar recriwtio. Rwyf wedi hen 'laru ar bobl yn gofyn imi ddod i ddigwyddiadau recriwtio."*

> *"Petaech yn gofalu'n iawn am y Gofalwyr Maeth sydd gennych, ni fyddai arnoch angen ceisio recriwtio cynifer o Ofalwyr Maeth newydd. Mae'n fusnes sylfaenol."*

4.13 Mae adroddiad llawn o'r arolwg ar gael oddi wrth Maethu Cymru.

4.14 Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, cyfwelwyd hefyd â Phennaeth Maethu Cymru. Roedd yn gefnogol iawn i'r Rhaglen Arloeswyr, a dywedodd fod yna fuddion go iawn wedi bod, yn neilltuol yn ymwneud â mentora gofalwyr maeth oedd yn newydd i'r rôl a chynorthwyo'r gofalwyr maeth hynny oedd yn ei chael hi'n anodd. Dywedodd fod

Arloeswyr hefyd yn gallu helpu gyda chadw gafael, a bod â rhan weithredol yn y gwasanaeth maethu. Yn ychwanegol, siaradodd am allu Arloeswyr i gael at beiriau cyllido ariannol er mwyn cynnig gwasanaethau ychwanegol i ofalwyr maeth. Yn olaf, roedd yn cefnogi gwreiddio'r Rhaglen Arloeswyr ym mhob Awdurdod Lleol ledled Cymru.

# 5. YMATEBION – HOLIADUR ARLOESWYR

5.1 Gwahoddwyd pob Awdurdod Lleol ac Arloeswyr cysylltiedig i gwblhau holiadur ar-lein. Rhestrir manylion llawn yr ymatebion yn Atodiad 7. Deilliodd y themâu allweddol canlynol ac maent hefyd wedi'u cysylltu â'r canfyddiadau yn yr adran ddilynol am y grwpiau ffocws.

**Buddion**

5.2 Rhaglen fuddsoddi ardderchog gyda mwy o wybodaeth yn ddilynol ledled ystod o feysydd.

5.3 Sefydlu grwpiau WhatsApp a Facebook i wella modd o ledaenu gwybodaeth.

5.4 Deialog mwy agored â'r tîm maethu ynglŷn â sut y caiff gofalwyr maeth newydd eu cynorthwyo.

5.5 Cynnwys gofalwyr maeth mewn gwell proses recriwtio.

5.6 Rhwydwaith cymorth ehangach ar gyfer gofalwyr maeth sydd o fudd i'r gwasanaeth maethu yn fwy cyffredinol.

5.7 Gwell cymorth un i un i ofalwyr maeth, fel dewis arall yn lle gweithiwr cymdeithasol.

5.8 Arloeswyr yn gweithio mewn ffordd ragweithiol sydd wedi helpu gwasanaethau i gymell gwelliant yn y gwasanaeth a mwy o ymgysylltu â'r gymuned faethu.

5.9 Gofalwyr maeth yn fwy galluog i siarad ag Arloeswyr mewn achosion lle nad ydynt efallai'n dymuno 'trafferthu' eu gweithiwr cymdeithasol. Dim 'gwyngalchu' problemau er mwyn gallu canfod datrysiadau. Cefnogi gofalwyr maeth yn emosiynol a'u galluogi i 'wyntyllu' sut maent yn teimlo.

5.10 Arloeswyr yn cynnal ystod o weithgareddau, yn cynnwys boreau coffi a grwpiau babanod. Mae'r rhain yn aml wedi bod o fudd i ofalwyr maeth a deimlai ar eu pen eu hunain.

5.11 Cynorthwyo gofalwyr maeth eraill a chanddynt heriau neilltuol, megis problemau ymddygiad yn ymwneud â'u plant.

5.12 Dangos y ffordd at feysydd eraill o gymorth a chefnogaeth.

**Heriau**

5.13 Cyfathrebu a lledaenu'r gair am y Rhaglen.

5.14 Diffyg cysondeb am beth yw'r 'cynnig'.

5.15 Diffyg eglurder am rôl yr Arloeswr.

5.16 Cymryd amser maith i gael yr Awdurdod Lleol i gymryd y rôl o ddifri' a phenderfynu sut roedd arnynt eisiau defnyddio Arloeswyr.

5.17 Dim ad-daliad am amser Arloeswyr, a chredydau amser nad oeddynt yn gweithio'n dda. Diffyg cyllideb i gynnal y Rhaglen.

5.18 Arloeswyr yn cael eu hyfforddi ond wedyn ddim yn cael eu defnyddio.

5.19 Cael gofalwyr maeth i gymryd rhan yn y Rhaglen; nid yw rhai yn hoffi'r enw 'Arloeswyr'.

5.20 Anawsterau cael staff o fewn y timau gwaith cymdeithasol. Hefyd, trosiant staff o fewn timau.

5.21 Annog gofalwyr maeth i dderbyn y gwasanaeth a gynigir gan yr Arloeswyr.

5.22 Amser i gynorthwyo Arloeswyr yn effeithiol.

5.23 Canfyddiad oddi wrth rai Awdurdodau Lleol eu bod eisoes yn darparu'r hyn y mae'r Rhaglen yn ei gynnig.

**Syniadau am newidiadau ar gyfer y dyfodol**

5.24 Gwell cyfathrebu o fewn timau a rhwng timau ac Awdurdodau Lleol.

5.25 Hyrwyddo mwy ar y rôl a sut y gellir defnyddio Arloeswyr. Deall y terfynau. Awdurdodau Lleol yn 'gwthio' iddo lwyddo. Mwy o eglurder a chynllunio rhagweithiol.

5.26 Cwblhau o ran y gweithredoedd sy'n ofynnol i ysgogi'r Rhaglen yn ei blaen.

5.27 Mwy o ddigwyddiadau y gall pobl eu mynychu.

5.28 Cymhelliannau ariannol yn hytrach na Chredydau Amser Tempo.


5.29 Gwneud pawb yn rhan ddiledryw o'r sgwrs, gan weithio mewn ffordd gydgynhyrchiol. Grymuso Arloeswyr a rhoi rhyddid iddynt weithredu.

5.30 Gwybod sut mae pobl eraill yn ei wneud. Dysgu ac adeiladu ar ymarfer da.

5.31 Cymorth parhaus gan Y Rhwydwaith Maethu.

Ar raddfa o 1 (dim newid) i 10 (newid cadarnhaol sylweddol), sut y byddech chi'n graddio'r Rhaglen Arloeswyr?

| | |
|---|---|
| 1 | 2 |
| 2 | 1 |
| 3 | 1 |
| 4 | 1 |
| 5 | 5 |
| 6 | 2 |
| 7 | 4 |
| 8 | 6 |
| 9 | 2 |
| 10 | 6 |




## 6. CANFYDDIADAU DRWODD A THRO

6.1 Seilir y canfyddiadau o'r gwerthusiad hwn ar adborth goddrychol oddi wrth ystod o atebwyr fu'n gysylltiedig â'r Rhaglen Arloeswyr o bob cwr o Gymru. Maent wedi deillio o'r ymatebion i'r holiadur ar-lein (adran flaenorol) a chyfres o grwpiau ffocws a thrafodaethau un i un.

6.2 Mae'r rhaglen yn dal yn ei chyfnodau cynnar, ac nid oedd data pendant ar gael am effaith ar blant a theuluoedd (gweler argymhellion).

6.3 Roedd yna hefyd lefelau cyfnewidiol iawn o gyfraddau ymateb ac adborth oddi wrth wahanol Awdurdodau Lleol, yn amrywio o ddim ymateb o gwbl, i ymatebion gan gynrychiolwyr yr Awdurdodau Lleol ac Arloeswyr, fel ei gilydd. Gwnaethom nifer o ymdrechion i gael adborth oddi wrth yr Awdurdodau Lleol hynny nad atebodd ein cyfathrebiadau. Roedd hyn yn cynnwys Awdurdodau a gymerodd ran yn y Rhaglen Arloeswyr a'r rheiny nad oeddynt wedi cymryd rhan. Teimlem fod y grŵp olaf yn neilltuol o bwysig er mwyn ennill dirnadaeth o argymhellion o hyn ymlaen ar gyfer datblygu'r rhaglen.

6.4 Presenoldeb mewn grwpiau ffocws cymysg – Arloeswyr a chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol.

| | |
|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | Arloeswr |
| Caerffili | Arloeswr / Awdurdod Lleol |
| Conwy | Arloeswr |
| Sir y Fflint | Arloeswr |
| Merthyr | Arloeswr / Awdurdod Lleol |
| Ynys Môn | Arloeswr / Awdurdod Lleol |
| Casnewydd | Awdurdod Lleol |
| Castell Nedd Port Talbot | Arloeswr / Awdurdod Lleol |
| Rhondda Cynon Taf | Arloeswr / Awdurdod Lleol |
| Abertawe | Awdurdod Lleol |
| Torfaen | Arloeswr / Awdurdod Lleol |
| Bro Morgannwg | Arloeswr |
| Wrecsam | Awdurdod Lleol |

6.5 Presenoldeb mewn grwpiau ffocws sengl Awdurdodau Lleol.

| | |
|---|---|
| Gwynedd | Arloeswr / Awdurdod Lleol |
| Sir y Fflint | Arloeswr / Awdurdod Lleol |
| Rhondda Cynon Taf | Arloeswr / Awdurdod Lleol |

6.6 Yn ychwanegol, mynychodd Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol sy'n cwmpasu'r Awdurdodau Lleol canlynol sesiynau'r grwpiau ffocws.

Ynys Môn
Caerdydd
Sir Gaerfyrddin
Conwy
Sir Ddinbych
Sir y Fflint
Gwynedd
Sir Benfro
Powys
Bro Morgannwg
Wrecsam

## Canfyddiadau manwl

6.7 Ysgrifennwyd y canfyddiadau gyda dyfarniad pennawd, a ddilynwyd gan naratif ategol.

## Diwylliant

6.8 **Lle mae'r Rhaglen Arloeswyr wedi'i sefydlu, rhydd Arloeswyr a chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol wybod am ddiwylliant o berthyn, grymuso, cydraddoldeb, parch a chydgynhyrchu. Mae hyn yn bendant iawn yn cyd-fynd â nod rhaglen drosfwaol Maethu Lles - 'i hyrwyddo statws cyfartal i bawb sy'n gysylltiedig â'r tîm o amgylch y plentyn'.**

6.9 Efallai bod hyn wedi adeiladu ar ddiwylliant a fodolai cyn y Rhaglen, a / neu newid mwy sylweddol i ddiwylliant oedd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae yna yn sicr arwyddion cryf bod y Rhaglen, a dweud y lleiaf un, wedi darparu strwythur wedi'i ffurfioli sydd wedi cynorthwyo gofalwyr maeth i gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi am y profiad a'r arbenigedd a ddônt gyda nhw i'r gwasanaeth ehangach. Cafodd hyn, yn ei dro, effaith gadarnhaol ar bawb sy'n gysylltiedig.

6.10 Sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr yn y gwerthusiad, megis …

*"Mae arnom eisiau i ofalwyr gael eu gweld fel gweithwyr proffesiynol a theimlo felly" – Cynrychiolydd Awdurdod Lleol*

*"Rydym yn grŵp bychan o ofalwyr maeth, ac adnabyddwn ein gilydd yn dda, mae yna wir ymdeimlad o berthyn"* - Arloeswr

*"Gwnaed y rôl o'r blaen ond nis cydnabuwyd. Arferem fod yn 'rydych ond yn ofalwr maeth', ond yn awr rydym yn rhan o dîm"* – Arloeswr

*"Rydym yn gymuned, yn cefnogi pawb"* - Arloeswr

*"Mae yna newid pendant wedi bod o nhw i ni"* - Arloeswr

*"Mae Arloeswyr yn rhan annatod o'r tîm"* – Cynrychiolydd Awdurdod Lleol

*"Mae arnom eisiau i ofalwyr gael eu gweld fel gweithwyr proffesiynol a theimlo felly"* – Cynrychiolydd Awdurdod Lleol

*"Roeddem yn unigolion ac yn awr rydym yn dîm. Rydym yn deall oherwydd rydym yn gwneud y rôl"* - Arloeswr

*"Mae Arloeswyr yn rhan annatod o dîm. Rydym yn gweithio mewn cydgynhyrchiad gydag Arloeswyr"* – Cynrychiolydd Awdurdod Lleol

*"Gall Arloeswyr helpu i lunio'r rôl. Mae arnynt eisiau cael eu trin fel gweithwyr proffesiynol"* – Cynrychiolydd Awdurdod Lleol

"*Mae pawb yn wirioneddol llawn cyffro amdano*" – Arloeswr

6.11 Cafodd y teimladau hyn o gael eu gwerthfawrogi fel rhan o dîm proffesiynol ehangach yn amlwg effaith ar lefelau unigolion o gymhelliant a pharodrwydd i fod yn gysylltiedig ag ystod eang o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o ymglymiad wrth gyfweliadau gofalwyr maeth, cefnogaeth (un i un ac mewn grwpiau), hyfforddiant a gweithgareddau ehangach. Eto, er y gallai rhywfaint o hyn fod wedi bod ar waith cyn cyflwyno'r Rhaglen Arloeswyr, mae ffurfioli'r rôl wedi dod â mwy o strwythur, cydnabyddiaeth a momentwm.

6.12 Lle nad yw Arloeswyr yn teimlo'n rhan ddiffuant o'r gwasanaeth ac nas gwerthfawrogir fel gweithwyr cydradd (hynny yw, fel arbenigwyr drwy brofiad), efallai nad ydynt yn teimlo bod ganddynt ddigon o ysgogiad i afael yn yr awenau o ran cymryd cyfrifoldebau ychwanegol. Dyma un o'r negeseuon pwysicaf sy'n deillio o'r gwerthusiad hwn, ac mae'n rhywbeth a chanddo effaith ar lawer o feysydd eraill. Mae angen i ddiwylliant y gwasanaeth adlewyrchu'r gwerthoedd hyn o barch, ymddiriedaeth, gwerthfawrogi, ac yn y blaen. Mae hyn wedyn yn cymell darpariaeth gydgynhyrchiol sy'n angenrheidiol i'r Rhaglen weithio ar ei gorau.

*"Mae hi'n rhaglen 'un maint addas i bawb' i raddau helaeth. Mae gen i fwy o ddiddordeb mewn sut y gwnawn welliannau systemig i'n gwasanaethau. Gwerthfawrogaf y gwerth o ddarparu cefnogaeth cymheiriaid i gymheiriaid i ofalwyr maeth eraill, ond nid fy set sgiliau i ydyw, ac mae'n gadael llonydd i ddarparwr y gwasanaeth oni bai bod pobl ifanc a gofalwyr maeth yn ddiffuant yn rhan o'r sgwrs, ac yn cydgynhyrchu'r datrysiad"* - Arloeswr

*"Mae'r Rhaglen Arloeswyr yn syniad gwych ac mae'n offer gwerthfawr. Nid yw'n teimlo fel bod ei werth yn cael ei gydnabod yn gyson ledled Maethu Cymru i gyd" - Arloeswr*

## Adnoddau a Gwerth Ychwanegol

**6.13 Lle mae'r Rhaglen Arloeswyr wedi'i llwyr derbyn, ac mae cymorth strwythuredig wedi'i roi ar waith, mae yna fuddion pendant i bawb sy'n gysylltiedig. Hyd yn oed mewn achosion lle mae gofalwyr maeth wedi bod yn gysylltiedig â'r timau gwaith cymdeithasol mewn cyfrannu tuag at ddatblygu'r gwasanaeth drwodd a thro, mae gan ffurfioli hyn trwy'r Rhaglen werth ychwanegol i'r Awdurdodau Lleol hynny sydd wedi gwneud hyn.**

*"Mae ffurfioli'r hyn roeddem yn arfer â'i wneud wedi bod o fudd gwirioneddol inni. Mae cyfathrebu wedi mynd yn fwy agored, mae yna lai o hel clecs anffurfiol, mae waliau rhwng timau wedi'u chwalu, cydweithiwn fel un tîm mawr".*

6.14 Fodd bynnag, mae gwerth ychwanegol y Rhaglen Arloeswyr yn ymddangos yn aneglur i nifer fechan o Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Maent yn credu eu bod yn galluogi ac yn cynorthwyo gofalwyr maeth ar hyn o bryd, ac nad yw'r Rhaglen Arloeswyr yn angenrheidiol. Yn ychwanegol, mae yna lefelau amrywiol o bwysau o ran adnoddau ar lawer o dimau, a byddai'n ymddangos bod gan y rhain effaith ar rai Awdurdodau yn ymwneud â darparu'r amser cychwynnol sydd ei angen i gyflwyno a rheoli'r Rhaglen.

6.15 Barn rhai o'r Awdurdodau hyn yw bod y Rhaglen Dosbarthiadau Meistr yn ddigonol o ran ymgysylltu â, ac addysgu, gofal maeth newydd. Cyfeiriwyd hefyd at grwpiau ymgynghori fel modd drwy'r hyn y mae Awdurdod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â gofalwyr maeth.

6.16 Siaradasom ag un Arloeswr brwdfrydig iawn oedd wedi'i hyfforddi fel Arloeswr ar ei menter ei hun, ond nid oedd yr Awdurdod Lleol wedi ymgysylltu â'r Rhaglen o gwbl. Dywedodd hi: "*Dywedais wrthynt fy mod wedi'i wneud o, ond nid oes dim erioed wedi digwydd.*"

6.17 Yn ystod y gwerthusiad hwn, roedd hi'n anodd cael ymateb gan rai Awdurdodau Lleol er mwyn llwyr ddeall eu diffyg ymgysylltiad. Roedd hyn er gwaethaf nifer o gyfathrebiadau. Fodd bynnag, yn seiliedig ar gwpl o atebion, gwnaeth y materion hyn o werth ychwanegol canfyddedig a diffyg adnoddau godi fel ffactorau. Efallai yn wir bod yna faterion eraill ar waith, ond nid oeddem yn gallu cael atebion digonol i lwyr ganfod y rhain.

*"Nid yw fy Awdurdod Lleol yn gweithredu'r Rhaglen Arloeswyr. Yn ddiweddar, gwnaethom ailsefydlu Pwyllgor Ymgynghori na fu'n weithredol ers cyn COVID. Bydd yna rywfaint o groesi trosodd pan fo pethau'n gweithredu, sy'n golygu nad yw fy Awdurdod Lleol wedi cyflwyno'r Rhaglen Arloeswyr. Nid yw'r Pwyllgor Ymgynghori'n cynnwys unrhyw hyfforddiant ar gyfer y Gofalwyr Maeth. Mae yna gefnogaeth aruthrol fawr i'r Rhaglen Arloeswyr, hefyd; yn lleol, ledled Gogledd Cymru a Chymru gyfan. Mae'r gefnogaeth yn hanfodol ar gyfer recriwtio a chadw gafael, hefyd wrth gymharu â Chymdeithasau Gofal Maeth preifat" - Arloeswr*

6.18 O fewn rhai Awdurdodau Lleol nad ydynt wedi ymgysylltu â'r Rhaglen, mae yna weithiau brosesau ymgynghori ar waith, ac mae Arloeswyr yn gysylltiedig ag agweddau o'r gwasanaeth ehangach, megis recriwtio. Fodd bynnag, ein barn ar hyn yw nad yw hyn yn cyrraedd ffyrdd cynhyrchiol go iawn o weithio.

## Tâl

6.19 **Nid oes yna gysondeb yn y ffordd y caiff Arloeswyr eu gwobrwyo am eu hamser ledled y gwahanol Awdurdodau, ac nid yw'r system Credyd Amser Tempo yn boblogaidd gan lawer.**

6.20 Cyflwynodd Awdurdodau Lleol naill ai taliad ariannol i Arloeswyr, sydd yn nodweddiadol yn £15 yr awr gydag uchafswm o 5 awr yr wythnos o dâl, neu gynllun gwobr a chydnabyddiaeth (Credydau Amser Tempo). Gellir cyfnewid y Credydau hyn am ystod o wasanaethau a gweithgareddau a ddarperir gan 'bartneriaid cydnabyddiaeth' lleol a chenedlaethol Tempo.

6.21 Roedd yr adborth ar y credydau amser yn wael at ei gilydd, gyda phobl yn dweud nad oedd y gweithgareddau, y cynnyrch neu'r gwasanaethau yn aml mor ddefnyddiol â hynny, neu'n ddigon lleol. Roedd Arloeswyr a dderbyniodd y rhain hefyd yn ymwybodol bod rhai Arloeswyr o fewn Awdurdodau Lleol eraill yn derbyn taliadau fesul awr. Er bod pobl yn aml yn eitha' pragmatig am hyn, ac nad oedd gwobr ariannol yn ffactor ddylanwadol fawr, roedd y diffyg cysondeb ac elfen ganfyddedig o annhegwch yn amlwg yn broblem. Roedd sylwadau gan y grwpiau ffocws yn cynnwys…

> *"Aberthwn ein hamser heb gael dim byd yn ôl. Mae gennym gredydau amser Tempo ond nid oes llawer o ddefnydd wedi bod arnynt mewn gwirionedd. Pan glywsom fod ardal arall yn talu, ymddengys yn annheg. Mae arnom angen gofyn i Arloeswyr beth sydd ganddynt ddiddordeb ynddo - wedyn ei ddatblygu. Mae angen i'r rhaglen gael ei harwain gan Arloeswyr - mae ganddynt lawer i'w roi ac yn aml maent yn rhoi amser ar benwythnosau"* - Arloeswr.

## Cyfathrebu

**6.22 Roedd gwell cyfathrebu'n nodwedd gyson o fewn yr Awdurdodau Lleol hynny oedd wedi derbyn y Rhaglen Arloeswyr. Fodd bynnag, roedd yna hefyd gwestiynau ynglŷn â mor helbulus y gallai'r holl faes hwn fod ledled y gwasanaeth ehangach.**

6.23 Oherwydd bod yr Arloeswyr yn rôl gydnabyddedig, gydag elfen o gyfrifoldebau diffiniedig (gweler yr adran nesaf ynglŷn â disgrifiadau o rolau), gwelwyd hyn wedyn fel catalydd ar gyfer cyflwyno dull y cytunir arno o gyfathrebu o fewn y grŵp hwn. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys e-byst a/neu grwpiau WhatsApp, drwodd i gyfarfodydd yn y cnawd neu ar-lein rheolaidd.

> *"Mae gennym grŵp WhatsApp, ac mae'n gweithio'n wirioneddol dda. Mae'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb weld y negeseuon. Trafodwn bob mathau o bethau, yn cynnwys gofyn a all eraill helpu. Mae o ond ar gyfer Arloeswyr, ond fe'i sefydlwyd gan ein Rheolwr Tîm"* - Arloeswr

*"Byddai cymorth, cyfathrebu a dysgu ehangach oddi wrth arloeswr mewn awdurdodau lleol eraill yn fuddiol iawn inni oll, yn enwedig y rheiny sy'n fwy datblygedig gyda'r rhaglen nag rydym ni."*

6.24 Crybwyllwyd grwpiau WhatsApp gan lawer o bobl. Fodd bynnag, roedd yna lawer o amrywiant o ran sut y cafodd y grwpiau hyn eu gweithredu a'u cadarnhau. Mae rhai Awdurdodau Lleol nad ydynt yn cymeradwyo'u defnydd o gwbl, ond mewn rhai achosion, mae'r gofalwyr maeth ehangach wedi sefydlu'u grwpiau eu hunain heb gyfeirio at yr Awdurdod Lleol. Mae rhai Awdurdodau yn eu sefydlu eu hunain, dim ond ar gyfer Arloeswyr, ac mae rhai yn eu sefydlu ar gyfer Arloeswyr a'r tîm o Weithwyr Cymdeithasol.

6.25 Mae'n eglur y gall y mathau hyn o grwpiau fod yn helbulus os na chânt eu cynllunio a'u cefnogi mewn modd diwyd. Mae problemau dichonol yn cynnwys torri cyfrinachedd. Fodd bynnag, mae hi hefyd yn eglur y gallant fod yn fuddiol i gynorthwyo cyfathrebu pan fônt wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u safoni. Gall y cyfathrebu hyn hefyd fod yn llawer mwy uniongyrchol ac ymatebol na dibynnu ar e-byst. Enghraifft o le y gall hyn fod yn effeithiol iawn yw o ran darparu cymorth, yn aml y tu hwnt i oriau arferol swyddfa.

6.26 Roedd sylwadau gan gyfranogwyr am gyfathrebu yn cynnwys:

*"Cawsom ryw drafferthion yn X, nid oedd yna weithwyr cymdeithasol yn rhan, a dywedodd pobl fod rhywfaint o'r negeseua yn amhriodol. Fe'i caewyd, ac wedyn sefydlwyd un newydd, ond mae'n cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol yn awr"* - Arloeswr

*"Mae gan X grŵp WhatsApp i Arloeswyr ond nid yw'n cynnwys pob gofalwr maeth, mae gennym tua 200 o ofalwyr. Ond rydym hefyd yn anfon e-byst at bobl i gyfathrebu, sydd wedi'i groesawu'n wirioneddol dda gan ofalwyr maeth i'w hysbysu'n rheolaidd. Mae gennym hefyd dudalen Facebook ond nid yw hynny ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol ac aelodau'r tîm. Mae'n grŵp caeedig ar gyfer gofalwyr maeth ac fe'i monitrir gan un o dîm Maethu Cymru, ond dim ond y ni a all bostio"* - Cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol.

*"Weithiau, gall gweithwyr cymdeithasol deimlo dan fygythiad gennym ni, a mynd yn amddiffynnol, yn aml gan ddweud bod arnom angen cadw o fewn terfynau cyfrinachedd. Pwysleisiwn wrthynt nad oes gennym ddiddordeb yn achosion y plant ond bod gennym ddiddordeb mewn cynorthwyo'r gofalwr maeth"* – Arloeswr.

6.27 Mynegwyd pryderon hefyd am GDPR, yn ymwneud â'r materion cyfrinachedd a grybwyllir uchod a meysydd eraill. Teimlai pobl y dylai fod yna ganllawiau ynglŷn â hyn.

## Eglurder rolau, cyfrifoldebau a therfynau

**6.28 Mae gan ychydig o Awdurdodau Lleol ddisgrifiadau rôl eglur ar gyfer Arloeswyr. Fodd bynnag, mae yna ddiffyg eglurder am rôl yr Arloeswyr mewn llawer o achosion. Mae hyn yn cynnwys lle mae terfynau yn bodoli o ran y gweithgareddau a'r swyddogaethau y maent yn gysylltiedig â nhw.**

6.29 Roedd hwn yn bwnc cyson gan lawer o bobl y siaradwyd â nhw, gan mwyaf Arloeswyr, ond hefyd gan rai cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol. Gofynnwyd i bobl am eu dealltwriaeth o'r rôl ar ddechrau pob grŵp ffocws, a chyfleuwyd y neges hon yn gryf.

6.30 Cyfeiriodd nifer o bobl at ddisgrifiad o rôl a ddarparwyd gan Y Rhwydwaith Maethu (gweler Atodiad 4), ond nid oedd eraill yn ymwybodol o hyn. Credai nifer fechan o bobl y gallai'r disgwyliadau yn y rôl-ddisgrifiad hwn fod yn annymunol i rai. Un sylwadaeth gan Arloeswr oedd …

> *"Mae yna dri ohonom ond mae gen i lawer iawn ar fy mhlât. Roedd arnaf ofn dychrynllyd am ddisgwyliadau, roedd yn eitha' annymunol. Rydym ond yn naddu'n rôl"* – Arloeswr.

6.31 Mewn un Awdurdod Lleol, dywedodd Arloeswr na wyddai'r Awdurdod yn wirioneddol beth i'w wneud gyda nhw neu beth y dylid ei ddisgwyl ohonynt.

> *"Rwyf yn cynorthwyo/rheoli grwpiau cymorth, sef fy mhrif rôl, ac rwyf ar gael ar gyfer cymorth un i un. Hefyd, rwyf yn cynorthwyo recriwtio ac yn mynychu hyfforddiant clwstwr ar gyfer gofalwyr newydd. Rwyf yn helpu i gynllunio digwyddiadau dathlu yn flynyddol. Rwyf yn y swyddfa un diwrnod yr wythnos i gysylltu â staff. Cysylltaf â gwasanaethau eraill i blant a chysylltu â'r tîm Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal"* – Arloeswr.

> "*Mae arnom angen gwneud y rôl yn ychydig mwy ffurfiol, yn fwy addysgedig, fel bod gofalwyr sy'n darparu cymorth yn cael eu diogelu. Mae arnom angen strwythur. Ond mae arnom angen cymorth gan rywun sydd yn ei fyw*" – Arloeswr.

6.32 Pan drafodasom hyn yn fanylach, y farn gyffredinol oedd y dylai unrhyw rôl-ddisgrifiad fod yn hyblyg i ganiatáu i ofalwyr maeth unigol weithio yn unol â'u cryfderau a'u diddordebau. Efallai y bydd ar hyn angen arweiniad i Awdurdodau a thempled o rôl-ddisgrifiad diwygiedig.

> *"Mae arnom eisiau gwneud sgan sgiliau ar gyfer Arloeswyr yn ogystal â meysydd i'w datblygu. Ychydig fel proffil un dudalen*" – Cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol.

6.33 Nid oedd rhai Arloeswr yn hoffi'r term 'Arloeswyr', ac mewn un Awdurdod Lleol roeddynt wedi defnyddio'r term 'Eiriolwyr Cymorth'.

> *"Mae pobl yn dal i fethu â deall yn wirioneddol beth yw rôl yr Arloeswr"* – Arloeswr.

6.34 Siaradodd nifer o Arloeswyr am bryderon am derfynau, yn hytrach na'r rôl-ddisgrifiad yn fwy cyffredinol. Roedd yna farn bod angen mwy o arweiniad yn y maes hwn.

> *"Os caf alwad ffôn, ac mae yna honiad wedi'i wneud, a gofynnir inni gynorthwyo'r gofalwr gydag ychydig iawn o wybodaeth, mae hyn yn bryder. Gallwn ni fod yn y canol rhwng y ddwy ochr. Ac efallai na fydd y gofalwr yn dymuno ichi wybod yr wybodaeth*" – Arloeswr.

> "*Gobeithiaf y bydd y Llawlyfr Arloeswyr a llwyddiant y Rhaglen Arloeswyr mewn Awdurdodau Lleol eraill yn helpu fy Awdurdod Lleol i weld y bylchau yn y gwasanaeth y gallai Gofalwr Maeth helpu i'w lenwi. Gwelaf y Rhaglen Arloeswyr fel rhan wych o gytgordio Awdurdodau Lleol ledled Cymru*" – Arloeswr.

## Uchafu Adnoddau

**6.35 Mewn rhai Awdurdodau Lleol, roedd Arloeswyr ar waith, ond nid oedd y rhaglen wedi'i datblygu'n llawn. Roedd yna farn gyson gan lawer o'r Arloeswyr hyn, ac mewn rhai achosion, cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol, bod yna waith eto i'w wneud er mwyn uchafu potensial y Rhaglen a'r gofalwyr maeth sy'n gysylltiedig.**

6.36 Roedd y rhesymau am hyn yn amrywiol. Mewn rhai achosion, roedd o ganlyniad i ba hyd roedd gofalwyr maeth wedi bod yn gwneud y rôl. Mewn achosion eraill, roedd o ganlyniad i ddiffyg eglurder am eu rôl a'u terfynau. Roedd yna hefyd achosion lle nad oedd yr Awdurdod Lleol wedi cael yr amser i lwyr ddatblygu'r potensial oedd yn amlwg yn bodoli (o ran ymrwymiad a brwdfrydedd pobl).

6.37 Fel a grybwyllwyd yn rhywle arall yn yr adroddiad hwn, rhoddwyd gwybod bod cynhwysedd a chynaliadwyedd o fewn timau'r Awdurdodau Lleol yn her. Mae hyn hyd yn oed mewn achosion lle mae'r Rhaglen Arloeswyr wedi'i gwreiddio. Fodd bynnag, mae yna hefyd arwyddion cryf bod datblygu tîm Arloeswyr cryf yn effeithiol yn lliniaru hyn yn y cyfnod canolig i hwy.

6.38 Roedd un o'r meysydd mwyaf cyson o adborth yn ymwneud â gofalwyr maeth oedd yn aml yn teimlo'n fwy galluog a pharod i siarad â gofalwyr maeth eraill am eu problemau a'u helbulon. Rhoddwyd enghreifftiau lle y darfu hyn i ddigwydd ar sail un i un neu mewn grwpiau.

> *"Bydd gofalwyr maeth bob amser yn siarad â gofalwyr maeth eraill yn gyntaf yn hytrach na gyda'r Awdurdod Lleol. Mae ar ofalwyr maeth eisiau cael eu cynnwys a'u cydnabod"* – Arloeswr.

6.39 Lle nad yw'r Rhaglen wedi'i gweithredu'n llawn, neu ei bod yn dal yng nghyfnodau cynnar ei datblygiad, codwyd rhai pryderon am y prosesau a'r systemau cymorth ar waith i'w gwthio ymlaen. Rhoddwyd enghreifftiau lle roedd cyfathrebu yn araf ac roedd penderfyniadau'n cymryd amser maith. Llesteiriodd hyn Arloeswyr oedd yn awyddus i wneud cynnydd a datblygu.

*"Mae ysbryd yn isel. Hyd yr amser o ymholiad i ganlyniad yr ymholiad. Ni all neb wneud penderfyniad. Mae'n rhwystredig i'n holl ofalwyr. Ymddengys nad oes gan neb yr awdurdod i wneud penderfyniad syml. Cyfarfod ar ôl cyfarfod" – Arloeswr.*

## Hyfforddi a Rhwydweithio

**6.40 Cafodd y Dosbarthiadau Meistr, hyfforddiant i Arloeswyr a digwyddiadau rhwydweithio eu gwerthfawrogi gan bawb y siaradwyd â nhw. Teimlai pobl fod y Dosbarthiadau Meistr yn darparu sylfaen dda mewn gwybodaeth, tra bod yr hyfforddiant i Arloeswyr yn caniatáu ar gyfer rhagor o ddysgu a myfyrio, wrth i'r gofalwr maeth ddod yn fwy profiadol a chael y cynhwysedd i gynorthwyo eraill.**

6.41 Dywedodd rhai Arloeswyr yr hoffent fwy o fynediad i hyfforddiant i Arloeswyr yn barhaus, gyda rhywfaint o amrywiannau mewn faint o sesiynau hyfforddi roeddynt wedi'u derbyn (o un i un y mis).

6.42 Dywedodd Arloeswyr hefyd eu bod yn gwerthfawrogi cyfleoedd i siarad ag Arloeswyr eraill o Awdurdodau Lleol eraill, mewn ffordd gyffelyb i'r grwpiau ffocws o fewn y gwerthusiad hwn. Gallai hyn ganiatáu ar gyfer rhannu arferion da a syniadau. Mae hefyd yn ffordd o ddarparu cyfleoedd mwy anffurfiol i rwydweithio.

*"Mae'r hyfforddiant wedi bod yn rhagorol a dod ynghyd ag eraill. Mae yna lawer o hyfforddiant - un sesiwn y mis ac mae'n hyfforddiant gwych. Ac mae'r cyfle i gyfarfod ag eraill yn wirioneddol ddefnyddiol"* - Arloeswr.

*"Mae'r hyfforddiant wedi bod yn rhagorol a dod ynghyd ag eraill. Mae'n llawer o hyfforddiant – un y mis – hyfforddiant gwych. A chyfarfod ag eraill"* – Arloeswr.

*"Cafodd hyfforddiant Arloeswyr effaith aruthrol fawr arnaf – mae'n anhygoel"* - Arloeswr.

*"Mae hyfforddiant i Arloeswyr newydd yn gyflwyniad o gwpl o oriau; arferai fod yn 4 sesiwn dwy awr"* - Arloeswr.

*"Mae un sesiwn 2 awr yn cyflwyno'r rôl a sgiliau allweddol – wedyn mae gennym raglen hyfforddi barhaus"* – Arloeswr.

"*Ni allwch ddod yn Arloeswr oni bai eich bod yn mynychu Dosbarthiadau Meistr yn gyntaf. Roedd hyfforddiant i Arloeswyr ond yn ddwy awr*" – Arloeswr.

*"Byddai'n dda cael grŵp WhatsApp neu rwydwaith cyfathrebu ar gyfer Arloeswr - mwy ffurfiol nag anffurfiol. Gyda rhywun o'r Rhwydwaith Maethu"* - Arloeswr.

*"Pan ydym yn gwneud hyfforddiant, nid ydym yn sgwrsio. Gall y cyfarfodydd mwy anffurfiol hyn fod yn fwy gwerthfawr. Ychydig fel boreau coffi rhithwir".* Arloeswr.

## Cymorth Strwythuredig

**6.43 Mae cymorth proffesiynol strwythuredig i Arloeswyr yn anghyson. Darparodd rhai Awdurdodau Lleol gymorth strwythuredig i Arloeswyr sy'n fwy nag unrhyw gymorth a ddarperir i ofalwyr maeth eraill, ond nid yw rhai eraill yn gwneud, ac maent hefyd yn ystyried datblygu rhagor ar y maes hwn.**

6.44 Byddai rhagor o arweiniad ar hyn yn ddefnyddiol, ynghyd ag enghreifftiau o arferion da. Os caiff gofalwyr maeth rôl estynedig, yn enwedig lle mae hyn yn golygu cefnogaeth gan gymheiriaid, a'r holl sgiliau ychwanegol y mae hyn yn ei olygu, byddai mwy o gyfleoedd am gymorth proffesiynol yn amlwg yn fuddiol.

> "*Dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol ddarparu cymorth un i un. Mae gennym gynllun cyfeillio llwyddiannus, a bwriadwn ddatblygu rhagor ar hyn. Y ddelfryd fyddai bod gan bob Arloeswr gynllun dysgu a datblygu unigol. Caiff Arloeswyr hefyd adolygiad blynyddol*" – Cynrychiolydd Awdurdod Lleol.

> *"Rydym yn ystyried goruchwylio grwpiau'n chwarterol ac un i un lle y bo'n ofynnol"* – Cynrychiolydd Awdurdod Lleol.

6.45 Yn ychwanegol, fel y cyfeirir ato uchod yn y dyfyniad gan gynrychiolydd yr Awdurdod Lleol, gall y cymorth hwn ymestyn i gynllun dysgu unigol. Byddai hyn yn rhoi mwy o hyder i'r Arloeswr gyflawni'r rôl, a datblygu'i sgiliau ar gyfer y cyfnod hwy.

## Prosesau a Chanllawiau

6.46 **Mae angen datblygu gwell prosesau ac arweiniad perthynol i gynorthwyo'r rhaglen newydd hon. Yn ystod yr adeg hon o ddysgu, dyma adeg ddelfrydol i wneud hyn**.

6.47 Credai un grŵp fod angen cael ffordd y cytunir arni o gofnodi gweithgareddau a ffyrdd eraill mwy strwythuredig o wneud pethau. Dywedodd un Arloeswr y gallai hyn '*helpu o ran diogelu'n hunain*'. Roedd yna farn y byddai'n ddefnyddiol dysgu oddi wrth ardaloedd Awdurdodau eraill yn hyn o beth.

6.48 Cysylltwyd yr adborth hwn â'r sylwadau am yr angen i ddeall a chael arweiniad / protocolau eglur am ffiniau o ran gweithgareddau Arloeswr.

## Mesur Effaith

6.49 **Nid oes yna broses** y cytunwyd arni **ar waith i fesur effaith y Rhaglen Arloeswyr. Hyd yn oed petai hyn wedi'i gyfyngu i goladu astudiaethau achos a storïau, gall hyn gynorthwyo i ffurfio barn gyfnod hwy am werth y ffordd hon o weithio.**

6.50 Nid oedd yr un o'r cyfranogwyr yn y gwerthusiad hwn yn ymwybodol o unrhyw fecanweithiau ar waith i fesur effaith y Rhaglen Arloeswyr mewn ffordd strwythuredig, neu sut y gellir gwneud hyn. Siaradodd rhai Arloeswyr am gofnodi'u gweithgareddau yn rheolaidd, ond nid oedd hi'n eglur sut y câi hyn ei ddefnyddio i fesur deilliannau ar unrhyw lefel.

6.51 Roedd yna drafodaeth am fesur recriwtio a chadw gafael fel dau ddangosydd effeithiau, ond eto nid oedd yna fecanweithiau ar waith i fonitro hyn mewn unrhyw ffordd ffurfiol yn gysylltiedig â'r Rhaglen Arloeswyr.

6.52 Siaradodd nifer o gyfranogwyr am eu canfyddiad o sut y daeth y Rhaglen â budd i amrywiol feysydd o'r gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gwell digwyddiadau recriwtio (helpwn i ddarparu golwg 360 gradd o'r rôl);
- Bod yn rhan o'r broses recriwtio;
- Cymorth i ofalwyr maeth newydd;
- Darparu hyfforddiant, fel rhan o'r rhaglenni ar gyfer Arloeswyr;
- Gwell ystod o weithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer gofalwyr maeth, ac Arloeswyr naill ai'n arwain ar y rhain neu'n eu cynorthwyo;
- Gwybodaeth o ran yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Gall hyn gynorthwyo'r Awdurdod Lleol i allu ymateb i broblemau ynghynt;
- Cymorth y tu allan i oriau arferol swyddfa;
- Rhoi sgyrsiau am rôl gofalwyr maeth, yn cynnwys mewn ysgolion.

"Mae arnom angen bod yn fwy parod i werthuso, i fod yn gallu mesur effeithiau."

*"Cynorthwywn ofalwyr newydd a all fod â chwestiynau, gyda'u lleoliad cyntaf, yr hanfodion y dylent ei wybod, ond nad ydynt yn dymuno gofyn i'r gweithiwr cymdeithasol*" – Arloeswr.

6.53 Gall y maes mesur effeithiau fod yn broblemus iawn, ac mae angen i unrhyw broses a gyflwynir fod yn ystyrlon a heb fod yn ymwneud â phrosesau beichus o gofnodi. Mae yna gydbwysedd anodd ei wneud yma. Byddai hefyd yn her priodoli unrhyw ddeilliannau penodol (e.e. cadw gafael) i un ymyriad penodol (hynny yw, yn yr achos hwn, y Rhaglen Arloeswyr).

## Gwerth am Arian

**6.54 Lle mae rôl yr Arloeswr wedi'i derbyn a'i chefnogi'n llwyr o fewn Awdurdodau Lleol, darparodd y Rhaglen werth am arian, hyd yn oed yn y cyfnod cymharol gynnar hwn. Seilir hyn ar yr enghreifftiau o weithgareddau a ddarperir gan Arloeswyr a chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol, ansawdd a gwerth canfyddadwy'r gwaith hwn, a'r gost i'r Awdurdod o ran amser ac arian.**

6.55 Mae Arloeswyr yn cynnal gweithgareddau a wnaed cynt gan weithwyr cymdeithasol, neu eraill o fewn rolau cyffelyb, a gwelwyd fod hyn yn gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth drwyddo draw. Mae'n ymddangos mai'r hyn sydd ar goll yw mesur o effaith, fel y cyfeirir ato uchod.

6.56 Y cwestiwn allweddol i'r Rhwydwaith Maethu, ac i'r rheiny sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Arloeswyr, yw a yw'r rhaglen yn cynnig gwerth am arian. Yn ein tyb ni, ar ôl derbyn adborth gan Arloeswyr a chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol, mae'n gwneud hynny. Hyd yn oed yn y cyfnod cynnar hwn yn ei datblygiad, pan fo'r Rhaglen wedi'i gwreiddio a'i chefnogi'n dda, mae'r buddion a'r deilliannau'n gorbwyso unrhyw amser a

dreuliwyd a/neu gostau ariannol. Mae adran 6.64 yr adroddiad hwn yn darparu mwy o fanylion am hyn.

6.57 Wedi dweud hyn, yn amlwg mae yna fwy o waith i'w wneud i ymestyn a datblygu'r Rhaglen, ac mae hyn yn amrywio o ardal i ardal. Yn yr ardaloedd hynny sydd fwyaf datblygedig, mae yna o hyd rywfaint o waith i gynnal y momentwm ac i wreiddio'r Rhaglen hyd yn oed mewn ffyrdd safonol o weithio. I'r rheiny oll sy'n dal yng nghyfnod cynnar eu datblygiad, mae yna fwy o waith i gytuno ar brosesau a systemau safonol o gymorth. Ac i'r rheiny sydd eto i dderbyn y Rhaglen, mae angen rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r gwerthusiad hwn er mwyn iddynt ail-werthuso'u hymglymiad.

## Enghreifftiau o arferion da

6.58 Mae yna enghreifftiau o arferion da mewn nifer o Awdurdodau Lleol lle maent wedi derbyn y Rhaglen ac wedi datblygu ymatebion i weithredu ffyrdd newydd o weithio. Mae pawb mewn cyfnodau gwahanol, a chan hynny dyma gyfle ardderchog ar gyfer dysgu ledled Cymru.

6.59 Treuliasom amser ychwanegol gyda thri Awdurdod, sef Rhondda Cynon Taf (RCT), Gwynedd a Sir y Fflint, er mwyn archwilio hyn yn fanylach. Mae llawer o ganfyddiadau'n dyblygu'r meysydd a gaiff eu trin uchod, ond roedd yna hefyd ddysgu ychwanegol a ddaeth o hyn.

**Rhondda Cynon Taf**

6.60 Rhondda Cynon Taf oedd un o'r Awdurdodau Lleol cyntaf i ymgysylltu â'r Rhaglen Arloeswyr, a chyfeiriwyd yn rheolaidd atynt gan Awdurdodau eraill yn ystod y gwerthusiad hwn, o ran eu harferion da. Maent wedi datblygu ystod o bolisïau a gweithdrefnau i gefnogi'r Rhaglen, yn cynnwys drafft o Lawlyfr Arloeswyr, mewn cydweithrediad â'r Rhwydwaith Maethu. Bydd y drafft hwn yn ffurfio sail dogfen a rannir â'r holl awdurdodau yn ddiweddarach yn 2024.

6.61 Rhondda Cynon Taf hefyd oedd yr Awdurdod cyntaf i dalu i Arloeswyr am eu hamser, hyd at uchafswm o 5 awr yr wythnos. Dyma'r maint uchaf a ganiateir yn seiliedig ar y Rheoliadau. Dywedodd llawer o'r Awdurdodau eraill y siaradwyd â nhw yn ystod y gwerthusiad bod arnynt eisiau symud i'r model hwn, yn hytrach na defnyddio'r system credyd amser.

6.62 Roedd llawer o waith cynnar Arloeswyr yn Rhondda Cynon Taf wedi'i ganoli ar waith gydag ysgolion lleol i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal (CLA). Cysylltwyd hyn â'r rhaglen ACE (Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod) ac fe'i cydgysylltwyd trwy'r SENCO (Cydgysylltydd Anghenion Addysgol Arbennig) a wnaeth hefyd fynychu'r hyfforddiant i Arloeswyr. Dyma enghraifft o'r Arloeswyr yn cael eu cynorthwyo i weithio mewn ffordd gydgysylltiedig a strategol â gwasanaethau eraill - addysg yn yr achos hwn.

6.63 Mae gwaith yr Arloeswyr ar hyn o bryd yn ymdrin â llawer o agweddau o'r Gwasanaeth Maethu yn Rhondda Cynon Taf, fel a amlinellir trwy gydol yr adroddiad hwn. Mae hyn wedi cynnwys:

- Recriwtio a chadw gafael, yn cynnwys hwyluso digwyddiadau gyda'r swyddog recriwtio a chynorthwyo i ddatblygu a darparu grwpiau cymorth i ofalwyr;
- Cynorthwyo gofalwyr maeth a gofalwyr newydd sy'n wynebu sefyllfaoedd heriol. Mae hyn wedi cynnwys mentora a chymorth i ofalwyr sydd wrthi'n cael eu hasesu, a chefnogaeth i gymheiriaid yn ymwneud â dysgu a datblygu;
- Hyrwyddo ac eiriol, gweithio fel cyd-broffesiynolion a werthfawrogir yn y tîm o amgylch y plentyn i hyrwyddo dealltwriaeth o faethu ac i wella perthnasoedd ledled gwasanaethau (enghraifft o hyn yw'r rhaglen Plant sy'n Derbyn Gofal y cyfeirir ati uchod);
- Cynorthwyo newid trwy weithio'n rhagweithiol â'r gwasanaeth maethu i ganfod ffyrdd newydd o gydweithio i wella lles plant sy'n derbyn gofal;
- Trefnu a hyrwyddo ystod o ddigwyddiadau, yn cynnwys adolygu sut mae'r gwasanaeth yn mynd rhagddo;
- Eistedd ar baneli maethu.

6.64 Cynhaliodd y Gwasanaeth hefyd waith defnyddiol yn ymwneud â chostau sy'n gysylltiedig â thalu i Arloeswyr. O fis Ebrill 2023 i fis Ionawr 2024, darparodd Arloeswyr 576 oriau o waith am gyfanswm cost o £8,580. Byddai hyn yn dynodi y byddai blwyddyn lawn yn oddeutu £10,000, sy'n golygu gwerth ardderchog am arian i'r gwasanaeth. Byddai adborth hefyd yn dynodi bod Arloeswyr yn gyffredinol yn gweithio mwy o oriau nag y talir amdanynt iddynt – hynny yw, ar sail wirfoddol.

6.65 Nododd adborth gan Rondda Cynon Taf hefyd nifer o fathau eraill o ddysgu dros oes y Rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys y pwysigrwydd o:

- Rhywun o fewn y gwasanaeth yn meddu ar weledigaeth eglur ac angerdd dros sut y dylai'r Rhaglen gael ei chyflenwi;
- Cymorth effeithiol i Arloeswyr. Darperir hyn fel rhan o'r broses oruchwylio gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol, a bydd yn digwydd yn ffurfiol bob 12 wythnos, gydag adolygiad bob 6 wythnos;
- Cyfathrebu effeithiol, yn cynnwys grŵp WhatsApp yn benodol i Arloeswyr a gweithwyr cymdeithasol arweiniol;
- Prosesau ffurfiol a phroffesiynol, yn cynnwys y fath bethau â'r broses ymgeisio i Arloeswyr a defnyddio taflenni amser, ac yn y blaen;
- Chwalu'r 'waliau' rhwng gwasanaethau. Bu Arloeswyr yn rhan allweddol o hyn;
- Bod yn eglur ynglŷn â ffiniau a gwirio'r rhain o fewn cymorth a goruchwyliaeth.

**Gwynedd**

6.66 Siaradodd Gwynedd am sut roeddynt wedi lansio'r Rhaglen Arloeswyr trwy ddigwyddiad y gwahoddwyd gofalwyr maeth iddo, gyda bron i 50 o bobl yn mynychu. Darparwyd cinio canol dydd, ac roedd yna bwyslais ar sicrhau bod y sesiwn yn cael ei ddarparu mewn ffordd anffurfiol a hygyrch. Ar hyn o bryd, roedd 4 o Arloeswyr eisoes wedi'u recriwtio, ac arweiniodd y digwyddiad at 8 o bobl ychwanegol yn ymuno â'r grŵp. Canolbwyntiwyd llawer ar y neges bod gan bawb rywbeth i'w gynnig, ac y gall y pethau hynny fod yn wahanol, yn seiliedig ar ddiddordebau a chryfderau pob person.

6.67 Roedd yna hefyd ganolbwyntio ar alluogi Arloeswyr i lunio sut y datblygir y rôl, a'r pwysigrwydd o beidio â barnu. Gwerthfawrogwyd barn pawb.

6.68 Mae gan Wynedd hefyd grŵp WhatsApp penodedig ar gyfer Arloeswyr a grŵp Facebook caeedig i ofalwyr maeth.

6.69 Fel gyda rhai Awdurdodau Lleol eraill, datblygodd Gwynedd broffil llun â phensil / un dudalen ar gyfer Arloeswyr. Mae hyn yn darparu cyflwyniad defnyddiol ar gyfer gofalwyr maeth eraill er mwyn chwalu'r rhwystrau i gyfathrebu cychwynnol. Darperir dwy enghraifft yn Atodiad 8.

**Sir y Fflint**

6.70 Mae Sir y Fflint yn unigryw yng Nghymru gan ei bod hefyd yn rhedeg y rhaglen Mockingbird. Seilir hyn ar gymunedau o 6 i 10 o deuluoedd 'ategol' sy'n cynorthwyo'r naill a'r llall. Fodd bynnag, dynododd adborth o Sir y Fflint fod y Rhaglen Arloeswyr yn darparu model gwahanol sy'n darparu lefel fwy estynedig o gymorth ledled pob gofalwr maeth. Bydd hyn y caniatáu i Arloeswyr sydd â sgiliau a phrofiad neilltuol estyn allan i'r holl ofalwyr ledled ardal yr Awdurdod Lleol, a chysylltu ag Arloeswyr ledled Cymru ar gyfer rhagor o ddysgu a chymorth os bydd angen.

6.71 Roedd gan Sir y Fflint 5 o Arloeswyr ar adeg y gwerthusiad hwn, ond maent yn y gwaith o recriwtio mwy ohonynt. Roeddynt yn gwirioneddol werthfawrogi'r elfen cefnogaeth gan gymheiriaid o'r rhaglen, a dywedasant fod grwpiau a ddarparwyd gan Arloeswyr wedi bod yn llwyddiannus iawn, gydag ymagwedd fwy ffurfiol a 'sgyrsiol' tuag at gyfarfodydd gyda gofalwyr maeth. Dywedasant fod mwy o bobl ar hyn o bryd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn, a bod pobl yn teimlo'n fwy esmwyth.

6.72 Fel mewn ardaloedd eraill, mae Arloeswyr Sir y Fflint yn trefnu ystod o weithgareddau, ac maent hefyd yn mynychu digwyddiadau lleol megis yr Ŵyl Fwyd er mwyn hyrwyddo maethu a chynorthwyo recriwtio. Mae grwpiau babanod hefyd yn boblogaidd, a hefyd mae pobl sy'n mynychu yn gwerthfawrogi ymagwedd fwy hamddenol ac anffurfiol tuag at y rhain. Arweiniodd hyn at dreblu niferoedd y gofalwyr maeth sy'n mynychu.

6.73 Trafodwyd materion sy'n codi ar adegau, megis torri cyfrinachedd, a darparwyd hyfforddiant a chymorth i Arloeswyr ynglŷn â sut i reoli sgyrsiau anodd.

6.74 Ar hyn o bryd, ni chaiff Arloeswyr yn Sir y Fflint oruchwyliaeth ffurfiol, a dywedodd pawb y byddai rhagor o ganllawiau ar hyn a meysydd eraill yn fuddiol.

## 7. ARGYMHELLION

7.1 Canolbwyntir yr argymhellion hyn ar gamau y gall y Rhwydwaith Maethu'u cymryd i helpu i ddatblygu'r Rhaglen dros y ddwy flynedd nesaf. Mae yna hefyd negeseuon ymhlyg ar gyfer Awdurdodau Lleol o ran gweithredoedd y gallant eu cymryd i helpu i greu gwerth ychwanegol o fewn gwasanaeth sydd o dan bwysau a galw mawr. Mae angen datrysiadau creadigol er mwyn uchafu adnoddau, ac nid oes yna fawr o amheuaeth yn ein tyb ni nad yw Gofalwyr Maeth yn adnodd gwerthfawr, yn aml yn ymwneud â phobl sydd wedi'u cymell yn dda sy'n fodlon ac yn alluog i roi mwy.

### Rhannu'r gwerthusiad hwn

7.2 Bydd angen gwneud penderfyniadau am sut y gellir rhannu'r canfyddiadau o'r gwerthusiad hwn, yn allanol i'r Rhwydwaith Maethu. Gobeithio, ar wahân i fod yn edrych yn dda i'w ddarllen (er ei bod mewn cyfnod cynnar), o ran cynnydd y Rhaglen Arloesi, gall y canfyddiadau hefyd fod yn gatalydd i ragor o weithredu o fewn Awdurdodau Lleol, yn neilltuol y rheiny nad ydynt wedi cymryd rhan neu sydd mewn cyfnod cynnar o ddatblygiad.

7.3 Ar y sail hon, mae angen cytuno ar strategaeth gyfathrebu a ystyriwyd yn ofalus i'r 22 o Awdurdodau Lleol, yn ymgorffori elfennau allweddol o'r adroddiad (neu o bosibl y cyfan ohono). Yn ychwanegol, byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r Rhwydwaith Maethu gynnwys sut maent yn bwriadu ymateb i'r argymhellion. Bydd hyn yn dangos bod yr ymarfer gwerthuso yn fwy na dim ond modd o gyfiawnhau'r rhaglen hyd yn hyn, ond ei bod hefyd yn rhan o'u hymrwymiad i barhau i gynorthwyo a gwella'r Rhaglen.

### Arferion Gorau

7.4 Er mwyn treiddio'n ddyfnach i'r elfennau sy'n cyfrannu tuag at arferion gorau o fewn y Rhaglen Arloeswyr, argymhellir y gwneir rhagor o waith i archwilio 'taith' yr Arloeswyr lle y bu'n fwyaf llwyddiannus. Gall hyn gynnwys ardaloedd hyd at dri neu bedwar o Awdurdodau Lleol.

7.5 Er bod llawer o hyn wedi'i drafod o fewn y gwerthusiad hwn, bydd hyn yn adolygu yn fanylach sut y cafodd Arloeswyr eu canfod, eu recriwtio, eu hyfforddi a'u cynorthwyo. Bydd yn archwilio'r systemau a'r prosesau a roddwyd ar waith i alluogi hyn, yn cynnwys anfon negeseuon, disgrifiadau o rolau, rhaglenni hyfforddi (yn cynnwys sut y caiff y rhain eu cyflawni), talu, goruchwylio, cadw cofnodion ac asesu effeithiau.

### Llawlyfr Arloeswyr

7.6 Cynhyrchu dau Lawlyfr Arloeswyr sy'n cynnwys yr uchod i gyd, y naill ar gyfer timau maethu Awdurdodau Lleol am sut i gyflwyno, rheoli a datblygu'r Rhaglen, a'r llall ar gyfer Arloeswyr. Mae gan Y Rhwydwaith Maethu eisoes gynlluniau ar waith i weithredu llawlyfr.

7.7 Dylai Llawlyfr yr Awdurdod Lleol ymdrin â holl elfennau strwythurol, logistaidd a gweinyddol y Rhaglen, ond dylai fod ganddo hefyd negeseuon cryfion am bwysigrwydd y gwerthoedd sy'n tanategu'r rhaglen hon o ran grymuso gofalwyr maeth (sy'n dymuno bod yn Arloeswyr), ymddiriedaeth, cydgynhyrchu, ac yn y blaen. Bydd hyn yn cynnwys

rhai o'r canfyddiadau o'r gwerthusiad hwn, yn cynnwys dyfyniadau gan Arloeswyr a chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol.

7.8 Dylid ysgrifennu'r Llawlyfr Arloeswyr mewn ffordd hynod hygyrch a diddorol. Dylai fod yn fyr, yn eglur ac yn berthnasol, gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny a brofwyd eu bod bwysicaf i Arloeswyr (ac i Awdurdodau Lleol). Dylai ffurfio cydbwysedd hanfodol rhwng darparu digon o strwythur i alluogi'r darllenwr i ddeall beth mae'r rôl yn ei olygu, gan hefyd bwysleisio'r hyblygrwydd o ran addasu i gryfderau a diddordebau unigolion.

7.9 Gall y Llawlyfr hefyd gynnwys sampl o ddisgrifiad o rolau sy'n adeiladu ar y ddogfen sydd eisoes wedi'i dosbarthu gan Y Rhwydwaith Maethu.

## Taliad

7.10 Mae Awdurdodau Lleol a dalodd i ofalwyr maeth am eu hamser yn rhoi gwybod nad yw'r gost o wneud hyn yn waharddol. Mae angen cynhyrchu canllawiau ynglŷn â hyn o ran cyfraddau, ac unrhyw fecanweithiau eraill y gellir eu rhoi ar waith i gynorthwyo'r broses.

## Offer Cyfathrebu

7.11 Mae angen rhoi sylw i ddwy elfen o gyfathrebu ar gyfer y dyfodol. Un elfen o ran cynghorion ac arweiniad yn ymwneud â defnyddio offer cyfathrebu presennol o fewn yr Awdurdodau Lleol (e.e. grwpiau WhatsApp, Facebook). Yr elfen arall o ran cyfathrebiadau oddi wrth Y Rhwydwaith Maethu i Arloeswyr a'r rheiny sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen.

7.12 Gellir mireinio canllawiau ynglŷn â defnyddio offer presennol yn ystod y rhagor o waith yn ystyried arferion gorau (fel uchod). Gall hyn fod yn un o'r dulliau o ymholi yn ystod y cyfnod hwn.

7.13 Ystyriaeth o ddulliau cyfathrebu oddi wrth y Rhwydwaith i Awdurdodau Lleol sydd angen mwy o ystyriaeth a chynllunio. Mae angen i hyn adolygu sut orau i alluogi cyfathrebu effeithiol o ran y Llawlyfr Arloeswyr arfaethedig, a diweddariadau rheolaidd posibl eraill (e.e. cylchlythyrau). Dylai hefyd ystyried sut orau i hwyluso deialog gyda'r Arloeswyr ac eraill o fewn pob un Awdurdod Lleol, a rhwng y bobl hynny ledled Awdurdodau (ymddangosodd hyn yn gryf yn y gwerthusiad hwn).

## Mesur Effeithiau

7.14 Yn ddelfrydol, mae angen cyrraedd rhyw ddull o gytuno ar sut y gellir gwerthuso effeithiau. Mae gan bob system ei buddion a'i gwendidau, ac ni fydd yr un ohonynt yn berffaith. Er enghraifft, hyd yn oed petai recriwtio a chadw gafael yn gwella, nid yw'n bosibl o gwbl priodoli hyn yn llwyr i un ffactor (yn yr achos hwn, gweithgareddau a mewnbwn yr Arloeswyr).

7.15 Fodd bynnag, mae yna ddulliau gweithredu a all ddarparu rhyw fath o ffordd systematig o wneud hyn, yn cynnwys dulliau adrodd storïau megis techneg Newid Mwyaf Arwyddocaol (MSC). Gellir wedyn triongli hyn gyda dulliau meintiol eraill megis data am recriwtio a chadw gafael – fel yr uchod.

7.16 Mae ar hyn oll angen rhagor o drafodaeth, ac mae angen cytuno ar gonsensws â'r Awdurdodau Lleol. Gall y gwaith hwn hefyd gael effaith ehangach o ran dysgu ledled gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal.

## Atodiad 1 – E-bost cychwynnol Maethu Cymru

Fel y gwyddoch, mae'r Rhaglen Arloeswyr Maethu Lles wedi bod yn tyfu ac yn datblygu ledled Cymru dros y cwpwl o flynyddoedd diwethaf, ac rydym yn llawn cyffro o ddechrau ar werthusiad trwy Gymru gyfan i fesur yr effaith a gaiff arloeswyr. Yn ystod y broses hon, byddwn hefyd yn ystyried nodi heriau, rhwystrau, a meysydd lle y gallwn wella o hyn ymlaen.

Mae'r e-bost hwn yn gyflwyniad i Roger a Donna o Here2there, fydd yn cysylltu â phob gwasanaeth ac arloeswr o bob cwr o Gymru. Byddant yn eich gwahodd i gyfrannu tuag at y gwaith gwerthuso hwn. Mae'n wirioneddol bwysig ein bod yn cael dealltwriaeth o gynifer o wasanaethau a rhanddeiliaid ag y bo modd, ni waeth beth fo lefelau ymgysylltu cyfredol gyda'n rhaglen, er mwyn cael adolygiad realistig a didwyll.

Roger Rowett fydd yn arwain ar y gwaith, gyda chymorth gan Donna Thomas. Mae gan Roger gefndir helaeth mewn gwasanaethau i bobl ifanc ac roedd yn Arolygydd ac yn Gynghorydd Proffesiynol dros Wasanaethau Plant i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Hefyd, cynhaliodd ystod o werthusiadau annibynnol dros y 15 mlynedd diwethaf.

Bydd Roger a/neu Donna yn cysylltu â chi yn ystod y 3 mis nesaf, gan ddechrau yn awr. Bydd hyn yn bennaf er mwyn trefnu cyfres o grwpiau ffocws (gofynnwn ichi fynychu dim ond un ohonynt) ac o bosibl sgwrs ar-lein un i un. Gofynnir ichi hefyd gwblhau arolwg ar-lein a darparu manylion unrhyw berson arall rydych yn ei adnabod a all fod mewn sefyllfa i fwrw sylw ar y rhaglen.

Rydym yn gwirioneddol werthfawrogi'ch ymglymiad wrth y Rhaglen Arloeswyr hyd yn hyd, a bydd y gwerthusiad hwn yn gyfle gwych i nodi a dathlu'r hyn a weithiodd yn dda, a deall mwy am yr hyn y gellir ei wella o hyn ymlaen. Byddwn hefyd yn gallu rhannu'r ddysg hon ledled Cymru ac yn darparu atebolrwydd dros gamau gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

Gellir defnyddio unrhyw adborth a ddarparwch o fewn yr adroddiad terfynol, ond ni fyddwn yn enwi pobl heb eu caniatâd.

Os oes gennych unrhyw ragor o gwestiynau, gadewch imi wybod, os gwelwch yn dda, neu cysylltwch â Roger neu Donna yn ystod hynt y gwerthusiad.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

## Atodiad 2 – E-bost gychwynnol H2t

Ar ôl e-bost Gemma Struthers atoch yr wythnos diwethaf, hoffem gyflwyno'n hunain a darparu gwybodaeth am weithgareddau a gynlluniwyd a drefnasom yn ystod mis Chwefror.

Trefnasom chwe grŵp ffocws yn ystod mis Chwefror, gyda phedwar ohonynt yn weithredol o 10yb-hanner dydd ar ddiwrnod o'r wythnos waith, un yn gynnar gyda'r nos, ac un ar fore Sadwrn. Gobeithiwn y bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu mynychu un o'r grwpiau hyn, a weithredir o bell ar Teams.

Rydym hefyd wedi atodi dolen wrth holiadur ar-lein. Mae hyn yn ymdrin â'r meysydd y byddwn yn eu trafod yn ystod y grwpiau ffocws, a bydd ganddo ddau ddiben. Yn gyntaf, bydd yn eich galluogi i feddwl am y cwestiynau cyn y sesiynau grwpiau. Yn ail, bydd yn ein galluogi ninnau i sicrhau ein bod wedi derbyn barn pawb, ac y gellir priodoli'r rhain i'r person cywir ac i ardal gywir yr Awdurdod Lleol.

I grynhoi, a allwch, os gwelwch yn dda:

a. Ymateb i'r e-bost hwn, a dangos pa grŵp ffocws yr hoffech chi (ac eraill os dymunant gymryd rhan) eu mynychu o'r rhestr isod (dim ond un) erbyn **dydd Gwener, yr 2$^{ail}$ o Chwefror fan bellaf**.

b. Cwblhau'r holiadur (dolen isod) erbyn dydd Gwener, y 9$^{fed}$ o Chwefror. Os na allwch fynychu grŵp ffocws, bydd hyn yn gwneud yr holiadur hyd yn oed yn bwysicach.

https://forms.office.com/e/UQNyHZUhmv?origin=lprLink

Bydd eich ymglymiad wrth y gwerthusiad hwn yn hanfodol i sicrhau bod gennym gynifer o safbwyntiau ag y bo modd am y Rhaglen Arloeswyr, o ran yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn y gellir ei wneud yn wahanol o hyn ymlaen. Bydd presenoldeb yn y grwpiau ffocws hefyd yn eich galluogi i glywed gan ardaloedd eraill yr Awdurdod Lleol am syniadau ac arferion da.

DYDDIADAU GRWPIAU FFOCWS
Dydd Iau, yr 8$^{fed}$ – 10:00-12:00
Dydd Mercher, y 14$^{eg}$ – 10:00-12:00
Dydd Sadwrn, yr 17$^{eg}$ – 10:00-12:00
Dydd Mawrth, yr 20$^{fed}$ – 10:00-12:00
Dydd Mawrth, yr 20$^{fed}$ – 18:00-20:00
Dydd Iau, yr 22$^{ain}$ – 10:00-12:00

Anfonir gwahoddiadau Teams yn nes at ddyddiad eich grŵp ffocws dewisol.

Diolch yn fawr iawn am eich ymglymiad wrth y rhaglen hon hyd yn hyn, a chan ragdybio, am eich amser yn cyfrannu tuag at y gwerthusiad hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cofiwch beidio â phetruso cyn cysylltu â mi.

Yn gywir

## Atodiad 3 – E-bost dilynol H2t

Helô, X, fe fyddwch wedi derbyn cwpwl o e-byst am hyn, yn gyntaf oddi wrth Gemma (Y Rhwydwaith Maethu), ac wedyn oddi wrth Donna (H2t), gyda gwybodaeth am ein grwpiau ffocws ar-lein a'n holiadur.

Ni chawsom unrhyw ddiddordeb yn y grwpiau ffocws nac ymateb i'n harolwg oddi wrth X. Byddai'n wirioneddol ddefnyddiol cael eich adborth am y rhaglen er mwyn hysbysu sut mae'n datblygu o hyn ymlaen.

A fyddech yn fodlon darparu adborth drwy ddychwelyd e-bost, neu drwy sgwrs ffôn/Teams? Dim ond i archwilio'ch barnau am y rhaglen, o ran beth sy'n dda amdani, a beth a all fod yn well.  Hyd yn oed os nad ydych yn bwriadu cymryd rhan, byddai hyn o gymorth.

Llawer o ddiolch - Roger

## Atodiad 4 – Disgrifiad o Rôl Arloeswr (Y Rhwydwaith Maethu)

Beth yw Maethu Lles?
Daw Maethu Lles â'r holl weithwyr proffesiynol ynghyd sy'n gysylltiedig â chynorthwyo plant sy'n derbyn gofal, yn cynnwys Gofalwyr Maeth. Mae'n hyrwyddo cydraddoldeb statws i bawb sy'n gysylltiedig â'r 'tîm o amgylch y plentyn'. Bydd Maethu Lles yn annog gweithwyr proffesiynol i gydweithio, gan ganolbwyntio ar wella deilliannau lles i bobl a phobl ifanc. Bydd yn creu iaith gyffredin i weithwyr proffesiynol, gan dynnu pobl ynghyd a rhannu arferion gorau ledled ffiniau gwasanaethau gyda'r nod o wreiddio cyd-ymagwedd ledled y rhanbarth.

Beth yw Arloeswr?
Bydd yr Arloeswyr Maethu Lles yn rhan bwysig o'r rhaglen wrth iddi ehangu ledled Cymru. Byddant yn ofalwyr maeth profiadol fydd yn defnyddio'u sgiliau a'u profiad i'n helpu i raeadru'r ddysg o'r rhaglen dosbarthiadau meistr trwy gydol eu hawdurdod lleol. Bydd yr arloeswyr yn cynorthwyo cydweithwyr ledled gofal cymdeithasol ac addysg i wreiddio egwyddorion lles yn eu gwaith beunyddiol, gyda phwyslais neilltuol ar godi lles plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Yn ychwanegol at fynychu'r dosbarthiadau meistr, bydd Arloeswyr yn derbyn hyfforddiant a chymorth ychwanegol gan Y Rhwydwaith Maethu.

Beth fydd yr Arloeswyr yn ei wneud?
Dyma rai o'r gweithgareddau y gallech gymryd rhan ynddynt fel Arloeswr Maethu Lles:

- Cefnogaeth gan Gymheiriaid - gweithredu fel canolbwynt i ofalwyr maeth i'w helpu i ddeall ac uchafu'u rôl wrth gynorthwyo lles plant a phobl ifanc. Gall hyn gynnwys rhannu gwybodaeth am Maethu Lles mewn grŵp cymorth i ofalwyr maeth.
- Hyrwyddo ac eiriolaeth - gweithio gyda gweithwyr addysg a gweithwyr proffesiynol eraill i'w helpu i ymgysylltu ag amcanion y prosiect. Gall hyn gynnwys ymweld â sesiynau cyfnos mewn ysgolion yn eich ardal neu fynychu cyfarfodydd i rannu'ch profiad o'r Rhaglen Maethu Lles.
- Cynorthwyo newid yn eich gwasanaeth - gweithio'n rhagweithiol gyda gwasanaethau maethu i ganfod ffyrdd newydd o gydweithio i wella lles plant sy'n derbyn gofal. Gall hyn gynnwys mynychu hyfforddiant neu gynrychioli Maethu Lles mewn cyfarfodydd strategol gyda chyd-broffesiynolion eraill.

Manyleb Person Arloeswyr

Gwybodaeth / Profiad / Dealltwriaeth

- Profiad fel gofalwr maeth neu wrth gynorthwyo plant a phobl ifanc sydd â phrofiad gofal.
- Dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n bodoli i blant sy'n derbyn gofal, a sut i gynorthwyo'u hanghenion cymdeithasol, emosiynol a dysgu.
- Dealltwriaeth o sut y gall gofalwyr maeth a'r tîm o amgylch y plentyn gydweithio i gynorthwyo orau anghenion plant a phobl ifanc.

Sgiliau / Galluoedd

- Bod yn angerddol dros wella deilliannau i blant sy’n derbyn gofal.
- Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun, yn ogystal â bod yn aelod effeithiol o dîm.
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryfion, yn cynnwys gwrando ar, a deall barn eraill, a’r hyder i siarad o flaen grwpiau bychain a chyd-broffesiynolion.
- Y gallu i weithio’n rhagweithiol gyda gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol, addysg, iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill sy’n gysylltiedig â’r tîm o amgylch y plentyn.
- Y gallu i nodi ffynonellau priodol o gymorth a chefnogaeth i ofalwyr maeth yn unol ag amcanion y rhaglen Maethu Lles.
- Sgiliau trefnu da, yn cynnwys y gallu i gasglu tystiolaeth ac i gadw cofnodion.
- Y gallu i gynnal cyfrinachedd, fel y bo’n briodol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd Y Rhwydwaith Maethu yn eich cynorthwyo trwy ddarparu:

- Pecyn sefydlu, yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae arnoch ei hangen i ddechrau;
- Modd o gael at amrywiaeth eang o wybodaeth, hyfforddiant ac adnoddau eraill.

# Atodiad 5 – Canfyddiadau o werthusiad CASCADE

Cymerwyd y canfyddiadau canlynol yn uniongyrchol o adroddiad CASCADE.


1. Dechreuodd y dosbarthiadau meistr wyneb yn wyneb ond fe'u hataliwyd o ganlyniad i gyfyngiadau symud Covid. Yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud cychwynnol, cafodd y dosbarthiadau meistr eu mireinio, eu hailgloriannu a'u rhanbartholi fel y gellir eu darparu ar-lein, ac maent yn cynrychioli enghraifft ardderchog o gyflawni rhithwir effeithiol.
2. Mynychodd y tîm cyflawni hyfforddiant addysgeg gymdeithasol yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud cychwynnol, a chafodd hyn ei wreiddio yn llawer mwy eglur o fewn y cynnwys.
3. Croesawyd y cynnwys gan y mwyafrif llethol ac fe'i hategir gan ystod o daflenni a deunyddiau ategol. Mae'r cynnwys yn welliant mawr ar gynllun peilot 2019.
4. Caiff yr hwyluso'i brofi fel diddorol a rhyngweithiol. Bwriwyd sylw cadarnhaol ar fedr ac angerdd yr hwyluswyr.
5. Gwnaeth y ddarpariaeth ar-lein bresenoldeb yn llawer mwy dichonadwy i ofalwyr maeth prysur ac i weithwyr proffesiynol eraill.
6. Bwriwyd sylw'n gyffredinol ar y cyflwyniadau gan Benaethiaid Gwasanaethau, ac fe'u gwelir eu bod yn rhoi urddas a chefnogaeth i'r hyfforddiant.
7. Defnyddiodd y dosbarthiadau meistr siaradwyr sy'n arbenigwyr o ystod eang o ddisgyblaethau sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal, yn cynnwys lleferydd ac iaith; croesawyd y rhain yn frwd. Mae llawer o'r siaradwyr yn lleol, gan fod dosbarthiadau meistr yn neilltuol i bob un rhanbarth.
8. Mae yna lai o siaradwyr sydd â phrofiad gofal wedi bod nag yn y cynllun peilot blaenorol.
9. Bwriodd llawer sylw ar yr angen am fwy o amser mewn ystafelloedd trafod mewn grwpiau bychain.
10. Mae gweithio ar-lein yn rhoi llai o gyfleoedd ar gyfer rhwydweithio.
11. Gwerthfawrogir natur amlddisgyblaethol yr hyfforddiant yn enfawr. Rhoddir gwybod am fwy o barch ymysg aelodau'r tîm.
12. Mae'r prif negeseuon yn ymwneud â'r pwysigrwydd o ddod â'r gofalwyr maeth i mewn i'r tîm o amgylch y plentyn a llunio penderfyniadau perthynol wedi'u derbyn a'u cadarnhau. Rhoes cynrychiolwyr wybod y caiff addysg a gofalwyr maeth ar hyn o bryd eu cynnwys yn rheolaidd mewn cyfarfodydd o amgylch y plentyn.
13. Caiff llawer o enghreifftiau o'r sgiliau a'r ddysg eu rhoi ar waith a byddant yn ffurfio sail y drafodaeth rhwng gofalwyr maeth ac ymarferwyr yn y maes.
14. Mae mwy o ymagweddau ystyriol o drawma wedi'u derbyn.
15. Rhydd cynrychiolwyr wybod am gynnydd mewn hunan-ymchwilio o ganlyniad i fynychu'r dosbarthiadau meistr.
16. Rhoes cynrychiolwyr wybod am lefelau uwch o empathi i blant.
17. Mae gan gynrychiolwyr ymdeimlad cryf o foeseg greiddiol addysgeg gymdeithasol a'r syniad o weithio gyda'r plentyn cyfan. Mae llawer o'r ddysg a'r ddealltwriaeth o bwysigrwydd profiadau blaenorol plant hefyd wedi'u cadw.
18. Gwreiddiodd y rhaglen ddealltwriaeth eglur o rôl rhiant corfforaethol fel cyfrifoldeb i bawb.

19. Teimlai gofalwyr maeth wedi'u grymuso i ddod yn eiriolwyr cryfach dros y plant yn eu gofal, ac maent wedi gallu darparu llawer o enghreifftiau inni o hyn.
20. Ni fynychodd cyd-broffesiynolion y dosbarthiadau meistr mor helaeth ag y disgwyliwyd, yn enwedig y rheiny o feysydd addysg ac iechyd. Lle y gwnaethant fynychu, peidiodd llawer â mynychu pob un o'r pum sesiwn.
21. Barnir fod cymorth rheoli yn hanfodol ar gyfer annog cofrestru, gan atgyfnerthu gwerth yr hyfforddiant a hybu presenoldeb. Roedd pob un o'r tri rheolwr y gwnaethom ni gyfweld â nhw wedi mynychu'r dosbarthiadau meistr, gan arwain trwy esiampl. Roedd y tri i gyd yn hyrwyddo'r rhaglen.
22. Gall rhagor o sesiynau dilynol i'r dosbarthiadau meistr helpu i gyfnerthu a gweithredu dysg, ac ymestyn a gwreiddio rhagor ar sgiliau ac arferion newydd.
23. Mae cymorth i wasanaethau a chynlluniau gweithredu eto i'w datblygu a'u gweithredu'n llawn. Mae hwn yn faes gwaith parhaus.
24. Mae'r model arloeswyr yn ei gyfnodau cynnar; mae 57 wedi'u recriwtio, ac mae'r mwyafrif wedi derbyn hyfforddiant ac maent yn cymryd rhan yn weithredol mewn datblygu'r rôl. Rhagwelir y bydd rôl yr arloeswyr yn helpu i ddarparu rhwydwaith o gymorth i ofalwyr maeth. Dengys y model arwyddion gwych o addewid.
25. Mae Maethu Lles yn ffordd effeithiol o hyrwyddo addysgeg gymdeithasol, lles a'r tîm o amgylch y plentyn, gan adlewyrchu blaenoriaethau llywodraethol.

## Atodiad 6 – Ymatebion i Adolygiad Blynyddol Maethu Cymru

Dyma ddarn o'r adroddiad llawn sydd ar gael oddi wrth Maethu Cymru ar gais. Mae ond yn cynnwys y meysydd y bernir eu bod yn berthnasol i'r gwerthusiad hwn.

**Cymorth**




6.75 Lle y teimlai atebwyr nad oeddynt yn cael eu cefnogi, roedd sylwadau yn cynnwys y canlynol.

Cyfathrebu

- Dysgu cyfathrebu'n well, dychwelyd e-byst a galwadau ffôn - hysbysu pan ydych ar wyliau. Peidio â mynd ar wyliau i gyd ar yr un pryd.
    - Nid oes gennyf hyder bod y rheolwyr yn gwrando ac yn ymateb, gan ein bod yn gorfod codi'r un pethau trwy'r adeg.
    - Trwy wrando ar Ofalwyr a'u parchu. Eu trin fel Gweithwyr Proffesiynol.
    - Gwrando ar yr hyn a ddywed gofalwyr, gan mai y nhw sy'n byw gyda'r plant 24 awr y dydd.

Cymorth a Chanllawiau


- Dim ond cadw mewn cysylltiad yn fwy rheolaidd pan fo lleoliad yn newydd neu pan brofir anawsterau.
- Mae'r cymorth yn anghyson ac nid yw ar gael bob amser yn y man y mae arnoch ei angen.
- Cynghorion mwy strwythuredig cyn derbyn person ifanc, a rhyw arwydd o daliad.
- Gwell cymorth y tu allan i oriau swyddfa.
- Mae ein gweithiwr cymdeithasol newydd yn ardderchog; fodd bynnag, mae ganddo lwyth achosion anghynaladwy ac mae'n rhaid iddo flaenoriaethu argyfyngau, gan olygu nad oes ganddo ond ychydig o amser i weithredu rhwymedigaethau statudol safonol.
- Mwy o seibiant, gofal dydd pan fo'i angen.

Recriwtio a chadw gafael

- Cadwwch afael ar weithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth.
- Rhowch y gorau i wneud cynifer o newidiadau i'r tîm mor aml, os gwelwch yn dda. Cawsom 3 gweithiwr cymdeithasol mewn 8 mis!
- Cadwch weithiwr cymdeithasol am fwy na blwyddyn.

6.76 Cymorth y tu allan i oriau swyddfa

Pa mor dda y mae gofalwyr maeth yn teimlo y cânt eu cynorthwyo y tu allan i oriau swyddfa ar raddfa o 1 (Dim cymorth) i 10 (Cymorth llawn) fesul rhanbarth.





When viewed by region, the average scores varied from 7.9 in Gwent to 5.0 in Cwm Taf Morgannwg.

| Region | Average Score |
|---|---|
| Gwent (Base:35) | 7.9 |
| West Glamorgan (Base:101) | 7.1 |
| North Wales (Base:103) | 6.9 |
| Cardiff & Vale (Base:43) | 6.6 |
| Mid & West (Base:51) | 5.8 |
| Cwm Taf Morgannwg (Base:47) | 5.0 |

**[Caution must be taken when interpreting data with low base numbers]**

6.77 Cymorth gan Ofalwyr Maeth eraill




Average score by region was broadly consistent with that of the overall findings. However, respondents from Cardiff & Vale recorded an average score of 8.0, this is 1.3 points above that of the overall findings (6.7).

| Region | Average Score |
|---|---|
| Cardiff & Vale (Base:36) | 8.0 |
| Mid & West (Base:58) | 6.9 |
| North Wales (Base:112) | 6.8 |
| Gwent (Base:36) | 6.7 |
| Cwm Taf Morgannwg (Base:54) | 6.7 |
| West Glamorgan (Base:101) | 6.6 |

**[Caution must be taken when interpreting data with low base numbers]**

6.78 Natur y cymorth

| | No. | % |
|---|---|---|
| Allegations | 124 | 29.9 |
| None of these | 124 | 29.9 |
| Out of hours | 102 | 24.6 |
| Peer support | 93 | 22.4 |
| Peer Support suitable for working carers | 71 | 17.1 |
| Learning and development | 65 | 15.7 |
| Duty | 56 | 13.5 |
| Something else | 26 | 6.3 |
| **Total Respondents** | **415** | **-** |

Dirnadwyd cymorth ynglŷn â 'Honiadau' (29.9%) fel y prif gymorth yr hoffai atebwyr ei dderbyn gan ofalwyr maeth eraill. Dywedodd yr un ganran o atebwyr 'Dim un o'r rhain'.

6.79 Beth rydych yn ei deimlo y dylai'ch Awdurdodau Lleol ei flaenoriaethu dros y 12 mis nesaf?

| | Score (Out of 7) | Ranked most important | Ranked in the top three |
|---|---|---|---|
| Fees & allowances | 5.0 | 41.9 | 68.3 |
| Peer support & mentoring | 3.9 | 13.7 | 50.6 |
| Allegations | 3.6 | 14.2 | 43.9 |
| Recruitment | 3.5 | 16.5 | 43.6 |
| FC Charter | 3.0 | 7.5 | 35.2 |
| Social events | 2.4 | 2.7 | 20.7 |
| Something else | 0.9 | 3.5 | 9.2 |

Roedd sylwadau yn cynnwys:

*"Gwella'r gwasanaeth a'r cymorth rydych yn ei wirioneddol ddarparu i ofalwyr maeth. Efallai petai hyn yn cael ei wneud, ni fyddai'n rhaid ichi ganolbwyntio mor ddwys ar recriwtio. Rwyf wedi cael hen ddigon ar bobl yn gofyn imi ddod i ddigwyddiadau recriwtio."*

*"Petaech yn gofalu am y Gofalwr Maeth sydd gennych, ni fyddai arnoch angen ceisio recriwtio cynifer o Ofalwyr Maeth newydd. Mae'n fater sylfaenol."*


# Atodiad 7 – Holiadur ar-lein Arloeswyr

Derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn gan atebwyr trwy gyfrwng holiadur ar-lein.  Mae'r holl ymatebion wedi'u cynnwys, fel y'u hysgrifennwyd.

Beth yw'ch rôl?




Awdurdod Lleol




Sut y buoch yn gysylltiedig â'r Rhaglen Arloeswyr?

- Pedair blynedd
- Y fi oedd yr Arloeswr cyntaf dros Maethu Cymru Sir Fynwy
- Trwy fynychu'r cyfarfodydd, a hyfforddiant ar-lein hyd yn hyn.
- Helpu i sefydlu a gweithredu rhaglen ni. Mynychu digwyddiadau a chyfarfodydd ar-lein. Aethom i Gaerdydd am y digwyddiad ymddiriedolaeth llyfrau.
- Ie
- Rwyf wedi mynychu
- Ie
- Rwyf newydd ddechrau ar y Rhaglen Arloeswyr
- Arloeswr llesiant
- Rwyf yn Arloeswr o Ogledd Cymru.
- Cwblheais yr hyfforddiant i Arloeswyr ym mis Medi ond rwyf eto i gymryd rhan gydag unrhyw weithgareddau neu gymorth i Arloeswyr.
- Rwyf mewn cysylltiad â thîm maethu Torfaen ar gyfer ein harloeswyr. Darparaf gymorth i'r arloeswyr a chael sesiynau goruchwylio rheolaidd gyda nhw, yn ogystal â'u hyrwyddo trwy gydol y gwasanaeth. Y fi sy'n gyfrifol am ddyfarnu Credydau Tempo Time i'n harloeswyr am y cymorth y maent yn ei ddarparu i ofalwyr maeth eraill a'r gwasanaeth maethu. Ymgysylltaf â'r arloeswyr yn ymwneud â chymorth dichonol y gellir ei ddarparu i'r gwasanaeth maethu.
- Y fi yw'r man cyswllt ar gyfer yr arloeswyr yn Abertawe.
- Gofalwr maeth goruchwyliol sy'n arloeswr.
- Rwyf wedi mynd yn arloeswr o fewn y flwyddyn ddiwethaf.
- Cymerais yr awenau mewn rôl arweiniol ac ategol pan aeth y rheolwr ar absenoldeb salwch flwyddyn yn ôl.
- Rwyf wedi arwain ar ddatblygu a gweithredu'r rhaglen yn Rhondda Cynon Taf a gweithiais gyda'r rhwydwaith maethu i gynorthwyo Awdurdodau Lleol eraill i'w weithredu. Rwyf ar y grŵp llywio gyda rhwydwaith maethu.
- Ie, o'r dechrau gyda fy Awdurdod Lleol.
- Na, y fi yw'r Rheolwr Tîm Dros Dro, ac mae hon yn rôl newydd imi.
- Bûm yn arweinydd yn Sir y Fflint i ddechrau rhoi'n rhaglen arloeswyr ar waith (gyda'r cymorth mawr gan Gemma Struthers)
- Yn Sir y Fflint, rydym wedi dechrau grŵp babanod, a chymryd cyfrifoldeb am y bore coffi. Ni wnaethom gymaint o gymorth un i un, gan fod gennym Mockingbird, sy'n cwmpasu llawer o ofalwyr.
- Helpu a chynorthwyo gofalwyr maeth eraill sydd hefyd yn cynnal y boreau coffi a'r grwpiau babanod misol yn Sir y Fflint.
- Hyrwyddo i Awdurdodau Lleol, gan egluro'r buddion a datrys heriau i weithredu. Roedd yna yn gychwynnol ddisgwyliad mawr y byddai fy rôl yn cynorthwyo'n rhanbarthol gydag amser a chyllid. Fodd bynnag, nid oes gennyf gyllideb na thîm rhanbarthol, fel sydd yna mewn rhai rhanbarthau eraill.
- Arloeswr o Ogledd Cymru yn mynychu cyfarfodydd a hyfforddiant.
- Dros 12 mis.
- 3 blynedd.
- Cawsom gyfarfodydd rheolaidd am sut i hyrwyddo'r Arloeswyr yn ein hardal.
- Mynychais ychydig o ddosbarthiadau meistr a sesiynau hyfforddi a drefnwyd gan Y Rhwydwaith Maethu.

- Cwblheais yr holl hyfforddiant ac rwyf yn awr yn un o'r Gofalwyr Maeth arloesol cyntaf yn Wrecsam.
- Cysylltiad perthynas. Mynd i foreau coffi, gwarchod plant/babanod (lle y bo'n bosibl), cynorthwyo gofalwyr eraill, sefydlu elusen gyda chysylltwyr eraill i godi arian ar gyfer y plant.

Pa newidiadau cadarnhaol sydd wedi deillio'n uniongyrchol o'r Rhaglen Arloeswyr – pwy sydd wedi elwa, a sut?

- Grwpiau WhatsApp a Facebook. Lledaenu gwybodaeth yn well.
- Deialog mwy agored gyda'r tîm maethu ynglŷn â sut y caiff gofalwyr maeth newydd eu cynorthwyo. Gofalwyr maeth i gymryd rhan yn y broses recriwtio.
- Rwyf yn eitha' newydd i'r rôl arloeswr, ac nid wyf wedi bod yn gysylltiedig â llawer o bethau eraill hyd yn hyn.
- Ar hyn o bryd, rydym yng nghyfnodau cynnar datblygiad, ac ymddengys ein bod yn canolbwyntio ar weithio yn y gymuned i i annog recriwtio maethu.
- Nid wyf i fy hun wedi gweld unrhyw newidiadau eto.
- Credaf ei fod wedi mynd yn fyrrach, sy'n well i ofalwyr maeth.
- Cyraeddasom ofalwyr maeth oedd newydd eu cymeradwyo fel roeddynt yn cwblhau cyfnodau olaf yr asesu ac wrth iddynt gael eu cymeradwyo. Roedd gofalwyr maeth newydd yn gwerthfawrogi'r cymorth.
- Rydym newydd ddechrau yn ein hardal, a cheisiwn recriwtio a chadw gafael ar ofalwyr maeth yn ein hardal gan roi'r offer a'r wybodaeth iddynt.
- Rwyf wedi gallu cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi ardderchog.
- Mynychais laweroedd o sesiynau hyfforddi a chynyddais fy ngwybodaeth mewn llawer o feysydd gwahanol.
- Fel yr uchod – nid ymgymerwyd â gweithgareddau.
- Mae gennym nifer fechan o ofalwyr maeth a ymgymerodd â'r hyfforddiant gofynnol i gyflawni rôl yr arloeswr, a ddaw â budd i'r gwasanaeth maethu trwy ddarparu opsiwn arall o gymorth a chynghorion i'n gofalwyr maeth. Gŵyr ein gofalwyr maeth eu bod yn gallu cysylltu ag un o'r arloeswyr os oes ganddynt gwestiynau neu os oes arnynt angen cymorth nad yw'n gofyn am eu Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol. Felly, mae ein gofalwyr maeth wedi elwa, a ddaw, yn ei dro, â budd i'r gwasanaeth drwyddo draw. Mae ein gofalwyr maeth dichonol sy'n mynychu'n cwrs Sgiliau i Faethu wedi elwa o arloeswyr yn mynychu rhan o'r cwrs i roi gwir adlewyrchiad o faethu i Dorfaen, ac mae'r arloeswyr wedi gallu ateb unrhyw gwestiynau yr oedd gan fynychwyr y cwrs. Mae ein proses recriwtio wedi elwa, gydag arloeswyr yn helpu mewn digwyddiadau recriwtio ac yn ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd ynglŷn â maethu.
- Rydym yn ddiweddar iawn wedi dechrau ar ein Rhaglen Arloeswyr, ac mae hi eto i ddechrau gweithio. Nid ydym hyd yn hyn wedi gallu cymryd rhan mewn dim, gan ei bod hi'n gynnar iawn, a dim ond yn ddiweddar iawn y cawsom yr hyfforddiant ar eu cyfer.
- Cefnogodd gofalwyr newidiadau mewn grwpiau cymorth, cynorthwyo gofalwyr gyda Thechnoleg Gwybodaeth a hyfforddiant, mynychu recriwtio, ayyb. i roi safbwyntiau gofalwyr.

- Bûm yn cysylltu â gofalwyr a oedd angen cymorth/cyngor un i un gan gyd-ofalwr yn hytrach na chan weithiwr cymdeithasol.
- Gofalwyr maeth generig sydd newydd eu cymeradwyo sydd gan mwyaf wedi elwa, gan fod un o'n Harloeswyr wedi cefnogi'u sefydlu, ochr yn ochr â'u gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol.
- Mae'r arloeswyr yn Rhondda Cynon Taf mor rhagweithiol, maent wedi'n helpu i ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth ac i ymgysylltu â'r gymuned faethu.
- Mwy o gefnogaeth yn cael ei chynnig o fewn ein cymuned faethu.
- Roedd gan y swyddog recriwtio a'r Rheolwr Tîm blaenorol fwy o ymglymiad wrth hyn.
- Mae ein gofalwyr maeth yn ymateb yn dda i'r arloeswyr. Maent yn teimlo'n fwy galluog i siarad gyda nhw am bethau nad ydynt yn dymuno trafferthu'u gweithwyr cymdeithasol ynglŷn â nhw. Mae'r arloeswyr yn awr yn rheoli boreau coffi'r gofalwyr maeth, ac yn fwy diweddar maent wedi sefydlu grŵp i fabanod.
- Mae dod â gofalwyr gyda babanod ifainc ynghyd yn werthfawr, gan y gallwn fynd yn ynysig gyda'r grŵp oed hwnnw. Mae'r grŵp babanod yn newydd ond mae'n gweithio yn dda.
- Nid ydym wedi bod yn weithredol ers llawer o amser ond eisoes mae yna nifer dda yn mynychu'n boreau coffi a'n grwpiau babanod. Yr adborth oddi wrth ofalwyr maeth eraill yw eu bod yn teimlo'n fwy hamddenol pan gânt eu gweithredu gan arloeswyr yn hytrach na chan weithwyr cymdeithasol.
- Mae'n rhy gynnar dweud heblaw am frwdfrydedd gwirioneddol gan ofalwyr maeth i gymryd rhan mewn pethau.
- Enillais lawer o wybodaeth o'r sesiynau hyfforddi. Cyfarfûm â phobl hyfryd a gallwn gynorthwyo'n gilydd.
- Rwyf wedi gallu cynorthwyo ychydig o ofalwyr newydd oedd wedi'u lleoli gyda phlant heriol. Fodd bynnag, teimlaf y gallwn gael fy nefnyddio'n fwy.
- Teimlaf yn fwy hyderus fel gofalwr maeth wrth siarad â gofalwyr maeth eraill. Dyna'r hyn y dywedaf a ddaw o hyfforddiant. Mae'n ddymunol rhannu problemau gydag eraill yn yr Awdurdod Lleol ac i grŵp Cymru gyfan a gweld bod yna broblemau cyffelyb ledled y wlad. Mae'r cymorth gan arloeswyr eraill yn hyfryd ac rydym i gyd yn helpu ein gilydd. Nid oes modd anwybyddu problemau, ac yn amlach na pheidio, canfyddir datrysiad ymysg y grŵp.
- Mae'n ddyddiau cynnar inni, ac mae'r rôl yn dechrau dod yn fwy eglur i'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig, ac i'r gofalwyr eu hunain i'w deall. Mae gofalwyr maeth yn dechrau defnyddio'r cymorth, y mentora a'r cyfleoedd y gallwn eu darparu i weithio.
- Rwyf i fy hun wedi elwa trwy deimlo fy mod wedi fy nghyfarparu i gynorthwyo gofalwyr maeth eraill.

  Rwyf yn awr yn ddolen rhwng gofalwr maeth a'r awdurdod lleol. Mynychaf grŵp cymorth i ofalwyr maeth ac rwyf wedi hwyluso digwyddiadau cymdeithasol i ofalwyr maeth i'w cael i siarad gyda'i gilydd. Hefyd, sefydlais fforwm i ofalwyr maeth. Mae hwn yn gyfarfod chwarterol rhwng 2 o reolwyr tîm maethu a 4 gofalwr maeth. Gofalwr maeth gwahanol bob tro. Y diben yw cael trafodaeth am sut mae gofalwyr maeth yn teimlo bryd hynny. Unrhyw awgrymiadau ganddynt a pha gymorth sydd ei angen. Hefyd, gall yr Awdurdod Lleol ofyn am fewnbwn gan ofalwr maeth ynglŷn â

strategaeth, ac yn y blaen. O hyn, gwnaf sefydlu gweithgor i gasglu mewnbwn gan ofalwyr maeth am y llawlyfr newydd gan Awdurdodau Lleol i ofalwyr maeth.

Rwyf hefyd yn aelod o Banel Rhianta Corfforaethol Awdurdodau Lleol ar gyfer recriwtio a chadw gafael ar ofalwyr maeth. O hyn, cefais y syniad am y fforwm i ofalwyr maeth. Mae yna lawer o anesmwythyd ymysg Gofalwyr Maeth, ac maent yn teimlo na wrandawir arnynt, bod angen cysondeb mewn prosesau ac nad oes neb yn gwrando arnynt. Gweithiais gyda Phennaeth Gwasanaeth a rheolwr tîm maethu i gynghori gofalwyr maeth ynglŷn â llwybr cyfathrebu gan rannu cyfeiriadau e-bost Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwr y Tîm Maethu fel y gall gofalwyr maeth gysylltu â nhw'n uniongyrchol â'u pryderon unigol.

Ceisiaf annog gofalwyr maeth i siarad eu hunain pan fo arnynt angen gwneud hynny, yn hytrach na thrwof i.

Cynorthwyaf ofalwyr maeth pan nad ydynt yn gwybod beth i'w wneud. Dangosaf y ffordd iddynt gael cymorth a chefnogaeth ychwanegol fel y bo angen.

Sefydlais fy ngrŵp WhatsApp fy hun ar gyfer gofalwyr maeth Awdurdodau Lleol. Dim ond i ofalwyr maeth. Rhywle i rannu syniadau, i ofyn cwestiynau ac i ofyn am gymorth. Tyfodd hyn yn sylweddol ers imi'i ddechrau ym mis Medi. Pan gymeradwyir gofalwyr maeth newydd, cysylltaf â nhw, cyflwynaf fy hun ac ychwanegaf nhw at y grŵp WA. Mae hyn yn helpu i'w cysylltu ac mae'n lle o gymorth gan edrych tua'r dyfodol.

- Cynorthwyo gofalwyr eraill yn emosiynol, fel eu bod yn teimlo'n alluog i awyrellu'u barn ac wedyn parhau i gynorthwyo'u plant. Gwarchod baban fel bod teulu'n gallu mynd allan am gyda'r nos gyda'i gilydd, gan nad oes ganddynt lawer o warchodwyr babanod ar gael. Mae'n eu helpu i dreulio amser gydag aelodau teuluol eraill heb fod plant ifainc angen eu sylw. Boreau coffi i helpu i gynorthwyo gofalwyr eraill neu i gynnig cynghorion.

Beth fu'r heriau o ran cyflwyno a gweithredu'r Rhaglen Arloeswyr?

- Cyfathrebu.
- Roedd hi'n anodd iawn cael yr Awdurdod Lleol i benderfynu sut roedd arnynt eisiau i Arloeswyr gael eu defnyddio. Roedd hi'n teimlo fel petaent wedi cymryd amser maith i gymryd y rôl o ddifri' ac i ddeall mor werthfawr y gall Arloeswyr fod.
- Nid hyd yn hyn.
- Mae'n ymddangos yn eitha' llafurus. Credais y byddai gennym fwy o gyfleoedd mentora. Gobeithio, felly y bydd hi wedi inni ddechrau a gweithredu go iawn. Yn ychwanegol, rydym eto i gael ein had-dalu am ein hamser, ein hymrwymiad a'n hegni, ac roedd hyn yn gymhelliant mawr i mi roi fy amser hamdden.
- Mae'r cyflwyniad wedi bod yn dda. Ond nid yw fy awdurdod lleol wedi atgyfeirio neb imi.
- Ceisio cael gofalwyr maeth i gymryd rhan. Bwriodd gofalwyr maeth y sylw nad ydynt yn hoffi'r enw 'Arloeswyr' – mae'n eu troi ymaith.

- Heriau staffio – arweiniodd ein gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol yn y maes gwaith hwn, ond pan adawodd, aed â'i horiau i wneud arbedion yn y gyllideb. Dim cynhwysedd yn y tîm i neb arall arwain. Ymgysylltu â gofalwyr maeth – anodd canfod gofalwr maeth oedd eisiau mynychu'r dosbarthiadau meistr neu oedd â diddordeb mewn mynd yn arloeswr. Gwnaethom gryn dipyn o godi ymwybyddiaeth, ond ni chawsom fawr o ymateb.
- Rydym ond wrthi'n dechrau sefydlu ac felly'n ceisio cael pobl i ymddiddori.
- Dim ymrwymiad oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – gall hyn fod o ganlyniad i gynhwysedd o fewn y gwasanaeth, methiant i ddirnad cyfleoedd.
- Nid yw Conwy wedi derbyn y Rhaglen Arloeswyr eto. Y fi yw'r unig Arloeswr yng Nghonwy.
- Ddim yn eglur ynglŷn â beth yw rôl Arloeswyr yng Nghaerffili.
- Yr heriau oedd:
  * Cael gofalwyr maeth i ymddiddori mewn cynnal yr hyfforddiant gofynnol a mynd yn arloeswr, er ein bod yn ddiweddar wedi cael 4 yn rhagor o ofalwyr maeth i ymuno â'r cynllun hwn, ac felly mae yna drosiant wedi bod.
  * Annog gofalwyr maeth i ddefnyddio'r arloeswyr am gyngor a chymorth. Er gwaethaf atgoffa gofalwyr maeth yn rheolaidd bod yr arloeswyr ar gael i helpu, ychydig iawn o ddefnydd sydd yna ar y gwasanaeth.
  * Cael yr arloeswr i ddal i fod â diddordeb ac yn frwdfrydig, gan eu bod yn teimlo na chânt eu defnyddio'n ddigonol.
  * Dyfeisio ffyrdd o ddefnyddio'r arloeswyr, heblaw am gynorthwyo gofalwyr maeth a recriwtio. Teimlaf nad yw'n harloeswyr yn cael eu defnyddio i'w llwyr botensial ond ni wn sut y gellir unioni hyn. Mae'n ddefnyddiol mynychu digwyddiadau i arloeswyr i glywed am ar gyfer beth mae awdurdodau lleol eraill yn defnyddio'u harloeswyr, fel y gallaf gael syniadau.
- Ar gyfer y cyflwyniad, roedd hi'n anodd cael pawb yn rhydd ar yr un pryd. Llwyddasom yn y diwedd ond cymerodd fwy o amser nag a feddyliasom.
- Diffyg eglurder am beth yw rôl yr arloeswyr, sut orau i ddefnyddio'r sgiliau hyn, ayyb.
- I mi fy hun, yr heriau oedd naddu rôl sy'n diwallu anghenion y gofalwyr ym Merthyr. Rwyf wedi newid 2 arloeswr blaenorol a chanfûm hi'n anodd ymgysylltu â rhai gofalwyr fu'n maethu am flynyddoedd lawer yn hwy na mi. Diffyg dealltwriaeth gan ofalwyr eraill o fy nghylch gwaith fel arloeswr.
- Diffyg diddordeb gan ofalwyr maeth – yr her fwyaf oedd recriwtio mwy o Arloeswyr a chadw gafael ar y rhai rydym wedi'u hyfforddi.
- Amser i gynorthwyo'r arloeswyr yn effeithiol.
- Covid.
- Ni allaf fwrw sylw am hyn.
- Cymerodd hi gryn amser i gael y rhaglen i fod yn weithredol. Roedd yr arloeswyr yn brin o hyder, ac fe gymerodd y tîm maethu gryn amser i ddechrau hyrwyddo'r rhaglen hon. Ar ôl cyflwyniadau, a thrafodaethau am yr arloeswyr mewn cyfarfodydd tîm niferus, buddsoddodd y tîm o'r diwedd yn y rhaglen.
- Fel y dywedais, cynorthwyir llawer o'r teuluoedd gan Mockingbird, ac felly nid oes arnom yr angen am gymaint o un ar un yma.
- Mae'r heriau wedi cymell yr arloeswyr i weithredu ac i ledaenu'r gair i ofalwyr maeth eraill.

- Pan ymunais â Maethu Cymru ym mis Ebrill, 2022, nid oedd y Rhaglen Arloeswyr wedi'i chyflwyno. Gyda llawer o newidiadau mewn staff mewn timau, bu hi'n anodd ei sefydlu yn y pedwar awdurdod lleol i gyd. Bu llawer iawn o ddryswch ynglŷn ag iaith rhwng hyn a'r ymrwymiad i fentora gan gymheiriaid, fel rhan o ymrwymiad cenedlaethol Maethu Cymru, ac mae'r goblygiadau costau wedi bod yn waharddol hyd yn hyn, gan nad oes gennym gyllidebau a nodwyd yn ein rhanbarth. Rhoddwyd y gorchwyl i bob awdurdod lleol ddatblygu'u cynllun eu hunain, sy'n golygu bod gennym bedwar cynnig gwahanol.
- Nid yw fy Awdurdod Lleol i yn gweithredu'r Rhaglen Arloeswyr. Ailsefydlasom Bwyllgor Ymgynghori yn ddiweddar a fu'n anweithredol ers cyn COVID. Bydd yna rywfaint o orgyffwrdd pan fydd pethau'n gweithredu, sy'n golygu nad yw fy Awdurdod Lleol wedi cyflwyno'r Rhaglen Arloeswyr. Nid yw'r Pwyllgor Ymgynghori'n cynnwys unrhyw hyfforddiant i'r Gofalwyr Maeth. Caiff y Rhaglen Arloeswyr hefyd lawer iawn o gefnogaeth; yn lleol, ledled Gogledd Cymru a Chymru gyfan. Mae'r gefnogaeth yn hanfodol ar gyfer recriwtio a chadw gafael, a hefyd ar gyfer cymharu â Chymdeithasau Gofal Maeth preifat.
- Ansicr o beth yw'r rôl, rheolau a disgwyliadau. Mae rhai gweithwyr cymdeithasol nad ydynt yn ymwybodol o rôl yr Arloeswr ac roeddynt yn teimlo fy mod wedi bod yn ymyrryd.
- O ganlyniad i newidiadau rheolwyr cyson, ni chaiff rôl yr arloeswr bob amser ei chydnabod a'i throsglwyddo. Felly, ym mhob grŵp cymorth, mae'n rhaid inni ailgyflwyno'n hunain. Weithiau, gall gweithwyr cymdeithasol deimlo dan fygythiad gennym gan fynd yn amddiffynnol, gan ddatgan yn aml bod arnom angen cadw o fewn terfynau cyfrinachedd. Pwysleisiwn nad oes gennym ddiddordeb yn achosion y plant ond bod gennym ddiddordeb mewn cynorthwyo'r gofalwr maeth. Mai ein rôl yw dim ond cefnogi'r gofalwr maeth.
- I ni, mae'n golygu gwneud pobl yn ymwybodol o'r hyn yw rôl yr Arloeswr, a sut mae'n wahanol i Mocking Bird.
- Dealltwriaeth o'r rôl, diffyg gwybodaeth ac eglurder o'r hyn yw'n rôl. Rhwystrau gyda gweithwyr proffesiynol, gan nad ydynt yn deall, neu'n teimlo dan fygythiad/wedi'u tanseilio gan ein rôl.
- Yr her fwyaf yw na wyddwn beth oedd fy rôl, ac ni wyddai'r Awdurdod Lleol ychwaith, ac felly ni ddigwyddodd dim. Ar ôl ymuno â'r Panel Rhianta Corfforaethol, rwyf newydd ddechrau gwneud y pethau uchod ar fy liwt fy hun. Rwyf yn bendant yn ysgogi fy hun. Mae'r Awdurdod Lleol yn fy ngwrthsefyll pan geisiaf gynorthwyo gofalwr maeth. Dywedir wrthyf am eu hatgyfeirio i'w Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol. O ganlyniad i hyn, mae 2 weithiwr cymdeithasol gyda llai na 12 mis yn y gwasanaeth wedi gadael y gwasanaeth. Gofynnais yn awr am i fy rôl gael ei diffinio. Roeddynt yn fodlon gyda'r rhan fwyaf rwyf yn ei wneud ond gofynnais am gyfarfod i drafod fy nghefnogaeth i ofalwyr maeth trwy broblemau. Teimlad fod ar ofalwyr maeth angen eiriolwr ar adegau i'w helpu i drafod materion ac i gael eu clywed wrth wneud hynny. Mae arnaf eisiau bod ar gael iddynt ond rwyf yn gweld gwrthwynebiad gan yr Awdurdod Lleol.
- Rwyf i fy hun yn teimlo'n fwy cysylltiedig â maethu. Credaf petai bob gofalwr yn dod ynghyd, byddai'n teimlo'n fwy fel cymuned, a byddai ganddi well system gymorth.

O hyn ymlaen, pa newidiadau y credwch y gellir eu gwneud i wella sut mae'r Rhaglen Arloeswyr yn gweithio?

- Cyfathrebu.
- Mwy o hyrwyddo ar y rôl a sut y gellir defnyddio Arloeswyr.
- Canolbwyntio ar nod a gweithredu i wneud y newidiadau a leisiwyd i ni gan ofalwyr maeth eraill.
- Mwy o ddigwyddiadau y gallwn eu mynychu.
- Annog gwaith arloesi, a dylai'r Awdurdod Lleol weithio drosto iddo lwyddo.
- Ansicr ynglŷn ag ystyried ffyrdd o ddenu gofalwyr.
- Cawsom adborth gan ofalwr maeth oedd yn credu y dylasai fod yna gymhelliant ariannol i fod yn arloeswr yn hytrach na chredydau Tempo Time.
- Ansicr.
- Mae'n rhaglen sydd gan mwyaf yn un maint i bawb - mae gen i fwy o ddiddordeb mewn sut y gwnawn welliannau systemig i'n gwasanaethau - gwerthfawrogaf y gwerth o ddarparu cefnogaeth cymheiriaid i gymheiriaid i ofalwyr maeth eraill, ond nid yw'n set sgil i mi, ac mae'n anwybyddu'r darparwr gwasanaethau oni bai bod pobl ifanc a gofalwyr maeth yn rhan o ddifri' o'r sgwrs, ac yn cydgynhyrchu'r datrysiad.
- Cyflwyno'r Rhaglen Arloeswyr fesul cam yng Nghonwy.
- Mwy o eglurder a chynllunio rhagweithiol.
- Nid wyf yn sicr sut y gallwn ddatblygu rhagor ar y Rhaglen Arloeswyr ond rwyf yn fodlon gwrando ar sut mae eraill yn gwneud hyn.
- Mae arnom angen sefydlu terfynau pendant a chwblhau'r holl bethau bychain.
- Mwy o gysylltiadau ag arloeswyr eraill, ac felly gwyddom beth mae Awdurdodau Lleol eraill yn ei wneud, cyfleoedd i rannu syniadau.
- Rhannu yng ngwybodaeth ac arbenigedd arloeswyr eraill mwy profiadol. Cael eich cyflwyno i'r holl ofalwyr newydd fel rhan o'r broses asesu.
- Ansicr – Nid yw'r Rhaglen Arloesi wedi bod yn stori o lwyddiant yng Nghyngor Sir Fynwy, a chredaf fod y rhesymau am hyn yn ehangach, hynny yw, tîm bychan iawn, cymuned faethu dameidiog nad yw wedi adfer ar ôl y pandemig, diffyg partneriaeth gydlynol, ymdeimlad cyffredinol o ddifrawder ymysg gofalwyr maeth a fu gyda'r gwasanaeth ers blynyddoedd, ayyb.
- Cymorth parhaus gan rwydwaith maethu.
- Dysgu o'r hyn rydym yn ei wneud. Symud ymlaen.
- Byddaf yn mynychu'r drafodaeth sydd ar y gweill.
- Hoffwn roi mwy o ryddid i'n harloeswyr. Eu grymuso i weithredu gyda'r rhaglen. Er y gwnaethant gynnydd mawr, maent yn dal i fod yn wrthwynebol i ddatblygu'r rhaglen heb fy arweiniad i. Maent yn griw gwych o bobl gyda chymaint o brofiad. Rwyf yn teimlo y bydd mwy o hyfforddiant a chyfarfod ag arloeswyr eraill yn eu helpu.
- Rydym yn dîm o arloeswyr newydd, ac felly'n dal i sefydlu'n hunain; teimlwn yn fwy hyddysg i ateb hyn yn y dyfodol.
- Mwy o gysylltiad â gofalwyr maeth eraill, ac felly efallai y byddant yn teimlo y gallant siarad â ni.

- Petai Penaethiaid y Gwasanaeth yn cofrestru i sicrhau dyraniad o'r gyllideb yn yr hinsawdd gyfredol, byddai'n llesol inni.  Eglurder iaith rhwng rhaglenni, mae hefyd yn digwydd gydag Ystyriol o Faethu a'n partneriaid ein hunain yn Maethu Cymru.
- Gobeithiaf y bydd y Llawlyfr Arloeswyr a llwyddiant y Rhaglen Arloeswyr mewn Awdurdodau Lleol eraill yn helpu fy Awdurdod Lleol i weld y bylchau yn y gwasanaeth y gall Gofalwr Maeth helpu i'w llenwi.  Gwelaf y Rhaglen Arloeswyr fel rhan wych o gytgordio Awdurdodau Lleol ledled Cymru.
- Rôl wedi'i diffinio'n well, bod â mwy o ran yn y gorchwyl o hyfforddi gofalwyr maeth newydd dichonol.
- Hyrwyddo gweithdai sy'n ein cyflwyno i'r Awdurdod Lleol.  Rhoddir hyfforddiant i'r gweithwyr cymdeithasol am ein rôl.
- Mae arnom oll angen bod yn gweithio'r un fath.
- Arweiniad eglur i'r math o waith y mae ein rôl yn ei gwmpasu ac i gynorthwyo arloeswyr dichonol newydd.  Gwybodaeth o fewn gwasanaethau cymdeithasol am y cymorth a gynigiwn i'r gofalwyr.
- Byddai Llawlyfr Arloeswyr yn adnodd am ddim yn amlinellu i bob ochr sut y gall y rôl edrych gan ystyried set sgiliau gofalwyr maeth a gofynion yr Awdurdod Lleol.

  Templed o gytundeb ysgrifenedig a gynigir i gael yr hyn y cytunwyd arno yn ysgrifenedig.  Gwybodaeth enerig, gydag adrannau i'w cwblhau ar ôl cyfarfod ag Awdurdod Lleol yn ymwneud â rolau y cytunwyd arnynt.  Gellir wedyn ei lofnodi gan yr Awdurdod Lleol a'r gofalwr maeth, a gŵyr pawb beth a ddisgwylir ganddynt. Ceisiaf drefnu cyfarfod i drafod fy rôl ond maent yn ceisio'i ddatrys trwy e-bost.  Ni ddaw hyn â gwerth i'r rôl.


  Sesiynau datblygu Rhwydwaith Maethu ychwanegol ar gyfer Arloeswyr i gyfarfod i siarad am sut mae pethau'n datblygu, rhannu arferion gorau, gweld yr hyn y mae Awdurdodau Lleol eraill yn ei wneud, ayyb.  Dim ond i drafod yr hyn a weithiodd, yr hyn na weithiodd, ayyb.  Edrych ar rai astudiaethau achos gyda'n gilydd a dysgu oddi wrth ein gilydd.

  Cyfarfodydd bob 6 mis gydag Awdurdodau Lleol ac Arloeswyr a rhwydwaith maethu i weld sut mae'r rhaglen yn datblygu ac unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen.  Fel gwerthusiad.  Faint o arloeswyr, pa wahanol rolau o gefnogaeth sydd eu hangen.  Y math hwnnw o beth, ac yn y blaen.

- Gofalwyr sy'n berthnasau i gymryd mwy o ran, mae'n anodd ceisio cysylltu gan fod y rhan fwyaf o ofalwyr 'yn brysur wrthi' ac nid ydynt yn gofyn am gefnogaeth pan fo arnynt ei angen.

Ar raddfa o 1 (Dim newid) i 10 (Newid cadarnhaol sylweddol), sut y byddech chi'n graddio'r Rhaglen Arloeswyr?

| | |
|---|---|
| 1 | 2 |
| 2 | 1 |
| 3 | 1 |
| 4 | 1 |
| 5 | 5 |
| 6 | 2 |
| 7 | 4 |
| 8 | 6 |
| 9 | 2 |
| 10 | 6 |




5.1 A ydych ar hyn o bryd yn mesur effaith y Rhaglen Arloeswyr mewn unrhyw ffordd – os ydych, sut?

- Nac ydym.
- Nac ydym.
- Nid ydym hyd yn hyn.
- Ar hyn o bryd, rydym yn dal yn y cyfnod cynllunio.
- Nid ydym hyd yn hyn, nid wyf wedi cael unrhyw atgyfeiriadau.
- Nac ydym.
- Nac ydym.
- Ni wn yr ateb.
- Nac ydym.
- Rwyf yn mwynhau'r sesiynau hyfforddi a chyfarfod ag Arloeswyr eraill.
- Ddim ar gael.
- Na, nid ydym yn mesur hyn ar hyn o bryd.
- Nid eto, gan ein bod eto i'w cynnwys mewn gwirionedd mewn unrhyw beth. Mae'n ddyddiau cynnar iawn, ond gwelwn welliannau yn fuan iawn.
- O safbwynt personol, byddwn yn ystyried y sylwadau cadarnhaol gan ofalwyr, arloeswyr a staff eraill.
- Nid yn bersonol, cefais adborth cadarnhaol gan unigolion rwyf wedi'u cynorthwyo trwy fy ngweithiwr cymdeithasol goruchwyliol.
- Na.
- Do, rydym yn cyfrifo'r costau ariannol i'r Awdurdod Lleol a chael adborth gan arloeswyr, gofalwyr sy'n defnyddio cymorth a gweithwyr cymdeithasol sydd yn eu defnyddio.
- Gwelais y rhaglen yn esblygu a thyfu i fod y llwyddiant sydd gennym yn Rhondda Cynon Taf.
- Ansicr.
- Cawn adborth gan ofalwyr maeth eraill yn ystod sesiynau goruchwylio. Bu'r adborth yn gadarnhaol.
- Nid eto, rydym yn dal i ddysgu am sut y gellir ein defnyddio.
- Na.

- Nid eto, gan ein bod yn hollol newydd yn Rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin, treuliwyd egni ar sefydlu dosbarthiadau meistr ac yn y blaen hyd yn hyn a chael Awdurdodau Lleol i gofrestru.
- Enillais lawer o arbenigedd trwy fynychu sesiynau hyfforddi.
- Ddim yn cael fy nefnyddio lawer iawn, ddim yn gallu cynorthwyo yn ystod cyfarfodydd oherwydd cyfrinachedd.
- Do, mewn grwpiau cymorth, rwyf yn aml yn gorfod ymdrin ag ystod o broblemau a rhoi sylw iddynt gerbron y grŵp ehangach, weithiau'n ddienw ar gyfer y gofalwyr sy'n cymryd rhan. Rwyf yn falch bod gofalwyr maeth yn fy ngweld fel rhywun a all eu cefnogi.
- Na.
- Ar hyn o bryd, mae gennym gyfarfodydd misol gyda'n rheolwr i drafod ein rôl, unrhyw faterion sydd angen sylw ar gyfer ein gofalwyr, hyfforddiant, digwyddiadau a chyfleoedd i ymgysylltu.
- Gwnaf hynny trwy weithio i weithredu newidiadau y gofynnwyd amdanynt. Mae yna fwy o ofalwyr maeth yn ymuno â fy ngrŵp WA ac yn mynychu digwyddiadau cymdeithasol rwyf yn eu trefnu. Ni wn a yw'r Awdurdod Lleol yn gwneud unrhyw beth. Gwnaf ofyn am gyfarfod i drafod mesur yr effaith gyda fy Awdurdod Lleol.
- Adborth am yr hyn rwyf yn ei wneud bob mis gyda'r rheolwr maethu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Sylwadau eraill

- Mae'r Rhaglen Arloeswyr yn syniad gwych ac yn offer gwerthfawr. Nid yw'n teimlo fel petai ei gwerth yn cael ei chydnabod yn gyson ledled Maethu Cymru i gyd.
- Yn anffodus, llesteiriwyd ein hymdrechion yn Maethu Cymru Casnewydd gan niferoedd is o staff a diffyg ymgysylltiad gan ofalwyr maeth.
- Enillais gyfeillion gwych sy'n Arloeswyr mewn siroedd eraill.
- Mae'n ddyddiau cynnar i mi, ac mae yna lawer o heriau eraill yn digwydd inni ond byddwn wrth fy modd cymryd rhan.
- Teimlaf ein bod yn dal yng nghyfnodau dechreuol y Rhaglen Arloeswyr er y dylem fod yn fwy datblygedig nag rydym. Nid diffyg cymhelliant i ddechrau ar y gorchwyl sydd ar fai am hyn ond cyfyngiad ar yr hyn y mae arloeswyr yn gallu'i gynnig a sut rydym yn gallu defnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth hon.
- Mae'r arloeswyr yn Abertawe yn llawn cyffro i ddechrau ar eu rôl - maent wedi'i gwneud hi'n eglur bod arnynt eisiau cymryd rhan i recriwtio gofalwyr maeth a hefyd i helpu'r gofalwyr maeth presennol gydag unrhyw beth y gall fod arnynt ei angen. Yn ogystal, canolbwyntio ar y gofalwyr newydd a ddaw i Maethu Cymru a'u galluogi i bontio'n haws.
- Rwyf yn dal yn newydd iawn i'r rôl, a theimlaf fy mod yn araf wneud cynnydd gyda gofalwyr fel unigolion. Mae gennyf ymagwedd araf a chyson, gan feddwl mwy mewn termau cyfnod hir a cheisio ennill ymddiriedaeth pobl yn hytrach na bod yn fwy ymwthgar, os yw hynny'n gwneud synnwyr.
- Mwynheais yn fawr iawn gyfarfod a thrafod rolau gydag arloeswyr o siroedd eraill; mae gennym ferched galluog iawn yng Nghymru yn gwneud pethau gwych!!

- Rwyf wrth fy modd bod yn Arloeswr ac yn clywed am y Rhaglen Arloeswyr mewn Awdurdodau Lleol eraill.  Teimlaf yn llawn cyffro dros dwf y Rhaglen Arloeswyr! Diolch.
- Teimlaf y daw'r Rhaglen Arloeswyr, unwaith y bydd hi'n gweithredu'n effeithiol mewn Awdurdod Lleol, â gwerth i lais gofalwyr maeth ac Awdurdodau Lleol, fel ei gilydd.  Mae cydweithredu a chyfathrebu effeithiol yn allweddol i gadw gafael ar ofalwr maeth dedwydd, ac a werthfawrogir.  Nid ydym yn ymarferiad mewn ticio blychau!!!!

# Atodiad 8 – Proffiliau Arloeswyr (o Wynedd)

maethu cymru | foster wales
Gwynedd

The Fostering Network
Rhwydwaith Maethu

## pioneer profile

### Karen Phillips



**Karen, together with her husband Steven, has been a registered Foster Carer for Gwynedd for over 22 years. Karen is one of the latest members to join our cohort of Well-being Pioneers in Gwynedd. She is fluent in Welsh and English**

**what people appreciate about me**

Karen is described as a caring, relaxed and approachable character. Her fellow carers and colleagues respect her ability to reassure others in difficult situations. Karen enjoys bringing people together; whether by organizing monthly meetings between foster carers or by serving a weekly Sunday lunch to her family of 10! Karen is a reliable person, always ready to help. She is a caring mother, a fun grandmother, a loyal friend (and the 'go-to dog sitter!').

**what is important to me**

Giving and receiving honesty as a means of clear communication, understanding and solving problems and moving forward.
Supporting others, while also feeling supported myself, and family.

**how can I support you**

As an experienced Foster Carer, Karen will be able to direct you to the right people for support, advice and services (information and contacts).
Karen is also available as a 'buddy' to support her fellow foster carers who are facing new, difficult or challenging experiences with children and young people.

The Fostering Network
Rhwydwaith Maethu

maethu cymru | foster wales
Gwynedd

The Fostering Network
Rhwydwaith Maethu

# pioneer profile



## Kaynat Sheikh

Kaynat and her husband Nadeem, were registered as Foster Carers in Gwynedd in August 2020, during the Covid-19 pandemic.

### What people appreciate about me

Kaynat describes herself as "very chatty but while talking I do talk about very serious issues in a very discreet way and strive to find solutions." Her fellow Foster Carers and colleagues in the fostering service describe her as kind, considerate and family orientated. She is very open, honest and approachable. Kaynat will talk with everyone and will always help anybody in need. She found great support in online peer support through the Pioneer programme and is eager to provide new Foster Carers the same support she received.

### What is important to me

"Women/ female mental health is very important to me. I also believe every child should get a positive learning environment and nurturing atmosphere, especially babies during their initial years, and that they live a healthy and happy life. But there can be trauma anytime in their life and that needs nurturing and reversing the old to build new memories."

### How I can support you

Peer support – Kaynat can offer support to newly registered Foster Carers as well as supporting carers to work collaboratively with birth families, support with asylum seeking children and young people and caring for babies.

Advocate on behalf of other Foster Carers – listen to their views and make their voices heard. "Some people are very reluctant or shy to share their views/problems and let that problem consume them for years and years but sometimes the solution is right in front of you. I strongly believe that there is always a solution to a problem."



H2T here2there